Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## 10.00 AM DYDD MAWRTH, 14 TACHWEDD 2023

## CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

Gellir ffilmio’r cyfarfod hwn i’w ddarlledu’n fyw neu’n ddiweddarach drwy wefan y cyngor. Drwy gymryd rhan, rydych yn cytuno i gael eich ffilmio ac i’r delweddau a’r recordiadau sain hynny gael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a/neu hyfforddiant o bosib.

1. Cyhoeddiad y Cadeirydd

2. Datganiadau o fuddiannau

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 54)*
   I'r Pwyllgor gymeradwyo cywirdeb cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14/07/2023, 28/07/2023, 14/09/2023 a 06/10/2023.

4. Craffu Cyn Penderfynu
   Dewis eitemau priodol o agenda’r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu)

5. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100BA(6)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd)

6. Cofnod Camau Gweithredu'r Pwyllgor *(Tudalennau 55 - 56)*

7. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 57 - 58)*

8. Mynediad i gyfarfodydd
Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

**Rhan 2**

9. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu
Dewis eitemau preifat priodol o agenda cyn craffu Bwrdd y Cabinet (Adroddiadau Bwrdd y Cabinet yn amgaeedig ar gyfer yr aelodau craffu).

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** 8 Tachwedd 2023

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **S.Pursey**

**Is-gadeirydd:** **Y Cynghorydd T.Bowen**

**Cynghorwyr:** S.M.Penry, C.James, L.Williams, W.Carpenter, K.Morris, A.Dacey, R.Davies, N.Goldup-John, S.Thomas a/ac R.W.Wood

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH**

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 14 Gorffennaf 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | R.Davies, N.Goldup-John, C.James, S.Grimshaw, K.Morris, S.M.Penry a/ac L.Williams |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Morris, C.Plowman, A.Thomas, J.Stevens, A.Phillips, S.Brennan, A. Collins, Harvey, H.Hasan, S. Owen a/ac T.Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hurley, S.Jones a/ac C.Phillips |

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Nododd y Cadeirydd fod eitem rhif 14 ym mhecyn agenda'r Cabinet, sef yr adroddiad preifat sy'n ymwneud â Datblygiad Arfaethedig Fferm Wynt Mynydd Fforch Dwm, wedi'i ohirio o'r cyfarfod hwn oherwydd yr angen i ystyried yr adroddiad ymhellach.
Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 9: Arian Cyfalaf Strydlun 2022/23
- Eitem 11a: Ychwanegiad at Ffioedd a Thaliadau Gofal Strydoedd 2023/24

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Y Cynghorydd Goldup-John - Cysylltiad personol ar gyfer Eitem 9 ar agenda'r cyfarfod Craffu gan ei fod yn gweithio i Trafnidiaeth Cymru. Mae ganddo oddefeb i siarad.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

4. **TEITHIO LLESOL**

Derbyniodd yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf am Deithio Llesol fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Esboniodd swyddogion hefyd fod rhai newidiadau sefydliadol wedi bod yng nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd o 1 Ebrill 2023 ac mae teithio llesol wedi'i gyfuno o dan maes portffolio'r Gwasanaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth.

Roedd map y rhwydwaith teithio llesol a'r meysydd sy'n cael eu harwain gan bolisïau yn cael eu cynllunio'n flaenorol. Mae'r swyddogaethau hyn bellach wedi'u hintegreiddio o fewn maes ymgynghoriaeth beirianneg. Dywedodd swyddogion fod yr adroddiad yn adroddiad pontio ac mae'n cynnwys y llynedd ac yn bwrw ymlaen â phethau o hyn ymlaen.

Dywedodd yr Aelodau fod yr angen am gynllun 5 mlynedd ar gyfer teithio llesol yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'i nodi yn y cynllun corfforaethol. Roedd yr Aelodau am wybod pryd y byddai'r cynllun hwn ar gael i'w weld.

Esboniodd swyddogion fod cynlluniau tymor byr, canolig a thymor hir ac mae swyddogion wedi bod yn ceisio penderfynu sut i flaenoriaethu'r rhaglen. Mae 400 o lwybrau teithio llesol yn y mapiau o'r rhwydwaith teithio llesol gyda 100 yn derbyn blaenoriaeth uchel. Mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu system i helpu awdurdodau i flaenoriaethu'r rhain ymhellach, unwaith y bydd hyn ar gael, bydd swyddogion yn gallu dechrau datblygu'r cynllun.

Mynegodd yr aelodau bwysigrwydd hyrwyddo teithio llesol. Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at y ffaith bod y ddolen ar y map Teithio Llesol yn eich cyfeirio at fap heb allwedd na manylion. Awgrymodd yr aelodau y gellid newid hyn i dudalen wahanol sy'n darparu allwedd a gwybodaeth ychwanegol yn ogystal â dolen sy'n eich cyfeirio chi at dudalen CNPT.

Cytunodd swyddogion y byddent yn diweddaru'r ddolen hon. Hefyd, tynnodd swyddogion sylw at y ffaith eu bod yn gweithio ar wahanol ffyrdd o hyrwyddo teithio llesol a'u bod yn bwriadu mynd allan i ddigwyddiadau i'w hyrwyddo. Dywedodd swyddogion hefyd eu bod yn agored i syniadau ac awgrymiadau ar hyrwyddo.

Esboniodd swyddogion ymhellach fod hyrwyddo cerdded a beicio wrth wraidd gwaith y timau diogelwch ar y ffyrdd a'r timau addysg gynradd. Dros 12 mis mae'r timau hyn yn cyrraedd bron pob un o'r ysgolion cynradd ac mae gwaith hefyd yn cael ei wneud mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo cerdded a beicio.

Awgrymodd yr aelodau hefyd bod swyddogion yn trosglwyddo'r wybodaeth i gynghorau cymuned fel y gallant ei hyrwyddo yn y gymuned leol. Cytunodd swyddogion fod hyn yn syniad da ac y byddent yn ei anfon at y cynghorau tref pan fydd y ddolen wedi'i diweddaru fel y gallent hwythau hefyd ei hychwanegu at eu gwefannau neu rannu'r ddolen.

Gofynnodd yr Aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddwy swydd newydd yr oedd y gyllideb wedi'u dyrannu ar gyfer teithio llesol. Esboniodd swyddogion fod swydd rheolwr teithio llesol yn cael ei llenwi gan rywun o dîm arall ym mis Mehefin. Mae swydd fel Swyddog Teithio Llesol yn destun gwerthusiad swydd ac mae wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

Ychwanegodd swyddogion hefyd, gyda'r rolau teithio Llesol, eu bod am ymateb i'r cynllun a rhoi mwy o gynlluniau ar waith ar lawr gwlad. Os ydynt yn llwyddo i sicrhau grantiau, yna mae gan y maes gwasanaeth ymgynghoriaeth sawl peiriannydd a fydd yn helpu i gefnogi'r rôl teithio llesol ac yn gallu rheoli'r adnodd a helpu i gyflawni'r gwaith hwnnw.

Dywedodd swyddogion y bwriedir i'r cyllid fod yn hunangynhaliol ar ôl 2 flynedd. Dywedodd swyddogion eu bod wedi mynegi pryderon i gyllid canolog ynghylch hyn. Esboniodd swyddogion y bydd yn creu incwm, ond tynnwyd sylw at y ffaith bod ansicrwydd ynghylch a fyddai modd ei adennill 100%. Gallai hyn arwain at bwysau ariannol a bydd angen ei fonitro dros y 2 flynedd nesaf.

Diolchodd yr Aelodau am y diweddariad hwn gan nad oeddent yn gallu dwyn i gof y terfyn amser ar gyfer ariannu'r rolau pan aeth yr aelodau drwy'r broses o bennu'r gyllideb ac roeddent yn meddwl eu

bod yn cael eu nodi fel menter buddsoddi er mwyn arbed ac yn y gyllideb sylfaenol, ond bellach roeddent yn gweld nad oedd yn y gyllideb sylfaenol.

Cadarnhaodd swyddogion, er nad oedd yn y gyllideb sylfaenol, mae ymrwymiad gan gyllid canolog, pe na allent adennill y costau'n llawn, y byddai'n cael ei drin fel pwysau wrth symud ymlaen fel y byddai'r swyddi parhaol yn cael eu trin fel unrhyw bwysau arall o fewn adran yr Amgylchedd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

5. **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>**

Arian Cyfalaf Strydlun 2023/23

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am Arian Cyfalaf Strydlun 2023/23 fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith nad yw'n wych bod hanner y gyllideb yn mynd i'r rhaglen waith priffyrdd a pheirianneg er ei bod yn waith hanfodol. Dywedodd yr aelodau na fyddai unrhyw un sy'n edrych arno'n disgwyl gweld yr arian hwn yn cael ei wario ar drwsio ffyrdd ac ati.
Awgrymodd yr Aelodau y dylid newid hyn mewn perthynas â chyflwyniad yn y gyllideb, naill ai cyflwyno'r cyfan i'r rhaglen waith priffyrdd a pheirianneg neu wneud dyraniad mwy realistig rhwng y ddau.

Dywedodd swyddogion eu bod yn ystyried canfyddiad y cyhoedd o'r arian yn cael ei wario ar briffyrdd, er ei fod yn waith angenrheidiol sy'n cael ei flaenoriaethu. Bydd swyddogion yn gweld sut y gellir cyflwyno hyn yn y dyfodol a chynghorwyd y gallai pethau newid yn yr hydref yn dilyn asesiadau. Mae swyddogion gofal strydoedd yn cynnig rhaglen â blaenoriaeth sy'n heriol.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Ychwanegiad at Ffioedd a Thaliadau Gofal Strydoedd 2023/24
Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am Ychwanegiadau at Ffioedd a Thaliadau Gofal Strydoedd 2023/24 fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Dymunai'r aelodau dderbyn eglurhad o ran a oedd hwn yn wasanaeth newydd.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau ei fod yn dâl newydd ar gyfer unrhyw weithrediad masnachol, megis tirlunwyr, garddwyr ac ati a allai fod am ddefnyddio'r cyfleuster ar safle Porth Tywyn. Nawr maen nhw'n gallu ei ddefnyddio am ffi.

Roedd yr aelodau am wybod, i ble mae'r busnesau hyn wedi bod yn mynd â'r math hwn o wastraff tan nawr. Eglurodd swyddogion fod unrhyw wastraff sy'n mynd i'r canolfannau ailgylchu yn mynd i unrhyw un o nifer o gyfleusterau compostio ar draws de Cymru.

Nid oedd swyddogion yn gallu gwneud sylwadau o ran i ble mae'r cwmnïau hyn yn mynd â'r gwastraff hwn ar hyn o bryd.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

6. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

7. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd aelodau'r pwyllgor y Blaenraglen Waith.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

9. **HWB TRAFNIDIAETH INTEGREDIG CASTELL-NEDD**

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am Hwb Trafnidiaeth Integredig Castell-nedd fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

10. **CRAFFU CYN PENDERFYNU AR EITEM BREIFAT/EITEMAU PREIFAT**

Ni chraffodd yr Aelodau ar yr eitemau preifat ar agenda cyfarfod y Cabinet.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 28 Gorffennaf 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, N.Goldup-John, S.Grimshaw a/ac S.E.Freeguard |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, J.Stevens, A. Collins, S.Curran, I.Rees a/ac S.Cook a/ac T.Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hurley, S.Jones a/ac C.Phillips |
| **Arsylwyr:** | Cynghorwyr S.Paddison, S.Reynolds, C.Clement- Williams a/ac A. Lockyer |

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o agenda Bwrdd y Cabinet:

Eitem 5: Grant Eiddo Masnachol: 14 Stryd y Berllan, Castell-nedd (Tudalennau 3 - 16)

Eitem 6: Adroddiad Adolygu Opsiynau Parcio 2023 (Tudalennau 17 - 52)

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Grant Eiddo Masnachol: 14 Stryd y Berllan, Castell-nedd

Holodd yr aelodau a oedd tenant wedi ei sicrhau ar gyfer yr adeilad.

Dywedodd swyddogion y cafwyd diddordeb, ond mae cyflwr yr adeilad yn golygu na all unrhyw un fynd i mewn nes iddo gael ei adnewyddu. Mae swyddogion yn ei ystyried yn adeilad pwysig mewn perthynas â Neuadd Gwyn.

Holodd yr aelodau hefyd am berchnogaeth yr adeilad. Dywedodd swyddogion nad yw'r berchnogaeth wedi'i chynnwys yn yr adroddiad, ond gall swyddogion gynghori aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Mynegodd yr aelodau eu canmoliaeth hefyd i'r tîm a oedd yn rhan o gyflwyno'r cynllun hwn gan y bydd yn gwella'r ardal.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Adolygu Opsiynau Parcio 2023

Diolchodd Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd i'r Cadeirydd am y gwahoddiad i'r cyfarfod a dywedodd ei fod ef a'r swyddogion yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau.

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg byr a chronoleg o'r grŵp tasg a gorffen a'r adroddiad gerbron y pwyllgor gan ddilyn argymhellion adroddiad y swyddogion tasg a gorffen.

Amlygodd yr aelodau, yng ngham cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig (AEI) mae'n nodi nad oes angen cam pellach oherwydd defnyddwyr meysydd parcio yn unig sy'n cael eu heffeithio.

Dywedodd yr aelodau, gan nad yw'r cyngor yn rhoi symiau dewisol i ddefnyddwyr anabl ar gyfer parcio, fod y datganiad yn yr AEI yn anghywir gan fod pobl anabl yn defnyddio meysydd parcio. Dywedodd yr aelodau hefyd, gan fod nifer o bobl anabl ar incwm sefydlog, roeddent eisiau gwybod pam nad oes angen yr asesiad cam nesaf.

Eglurodd swyddogion fod Cynllun y Bathodyn Glas yn berthnasol i barcio ar y stryd ac nid yw'n berthnasol i barcio oddi ar y stryd o ran

unrhyw gonsesiynau. Dywedodd swyddogion hefyd fod y cilfachau parcio i’r anabl ym meysydd parcio'r awdurdod wedi'u lleoli mor agos â phosib i allanfeydd a mynedfeydd y meysydd parcio a'r peiriannau talu ac arddangos i gynorthwyo gyda materion hygyrchedd.

Dywedodd swyddogion nad yw Cynllun y Bathodyn Glas yn gyllidol nac yn cael ei asesu ar sail prawf modd yn genedlaethol, sy'n golygu nad yw'r gallu i dalu yn ystyriaeth.

Gofynnodd yr aelodau a ydyn nhw, fel awdurdod, yn ymwybodol o sut y byddai'n effeithio ar bobl anabl ar incwm sefydlog. Teimlai'r aelodau nad oedd yr AEI yn ystyried hynny.

Esboniodd swyddogion fod rhai egwyddorion ehangach i'w hystyried. Os oes gan rywun gar ac mae'n gallu ei ddefnyddio, ei yswirio a'i drethu, yna yn gyffredinol mae mewn sefyllfa ariannol well na llawer o breswylwyr o fewn yr awdurdod lleol. Dywedodd swyddogion y gall perchnogion ceir yn gyffredinol fforddio talu rhywfaint o gyfraniad o ran taliadau parcio i helpu'r cyngor i gynnal y cyfleusterau hynny.

Tynnodd swyddogion sylw'r aelodau at y ffaith fod yr holl feysydd parcio yn costio cryn dipyn o arian i'w cynnal, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau ynni, cynnal a chadw adeiladau a diogelwch yn gyffredinol. Esboniodd swyddogion fod angen cydbwysedd, ond nid yw Cynllun y Bathodyn Glas yn brawf modd felly nid yw'n fater cyllidol o ran gallu.

Amlygodd yr aelodau eu bod wedi edrych ar y posibilrwydd o ganiatáu i ddefnyddwyr anabl gael awr yn ychwanegol yn ystod y grŵp tasg a gorffen, gan y gall fod angen amser ychwanegol ar bobl â bathodyn glas i adael neu fynd i mewn i'w ceir. Gall hefyd gymryd mwy o amser iddynt siopa.

Roedd yr aelodau eisiau gwybod a fyddai modd ystyried hyn hyd yn oed os oes angen ystyried rhoi awr ychwanegol mewn meysydd parcio penodol yn y dref.

Dywedodd yr aelodau, o ystyried bod y cynnydd mewn parcio yn berthnasol i'r cyfraddau fesul awr fel y cynigiwyd, ac nid cyfraddau parcio drwy'r dydd, y gall hyn effeithio'n anghymesur ar ddefnyddwyr anabl a all gymryd mwy o amser. Awgrymodd yr aelodau y gall wneud iddynt fynd dros y trothwy o awr ac felly gall fod angen iddynt dalu mwy nag y byddent wedi'i dalu fel arall.

Dywedodd swyddogion fod yr argymhelliad o ganlyniad i’r pwysau ariannol presennol, ac yn seiliedig ar y gyllideb barcio byddai deiliaid bathodyn glas yn talu'r tâl llawn.

Dywedodd swyddogion eu bod yn cydnabod ac yn cael eu harwain i ystyried materion anabledd a dyna pam mae'r awdurdod yn gosod yr holl leoedd parcio i'r anabl yn agos at y peiriannau talu ac arddangos.

Esboniodd swyddogion eu bod wedi gwneud argymhelliad yn seiliedig ar y prif fater, sef bod y consesiwn bathodyn glas ar gyfer parcio ar y stryd ac nid parcio oddi ar y stryd. A bod sefyllfa'r gyllideb yn anodd ac mae'n rhaid i swyddogion geisio mantoli'r gyllideb ar y cyfrif parcio.

Hysbyswyd yr aelodau, gyda Chynllun y Bathodyn Glas, fod deiliaid yn cael 3 awr ar linellau melyn dwbl ar yr amod eu bod yn arddangos y bathodyn glas ac yn nodi'r amser ar gloc y bathodyn. Mae deiliaid bathodyn glas hefyd wedi'u heithrio rhag unrhyw derfyn amser o fewn y cilfachau aros cyfyngedig. Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig iawn bod deiliaid bathodyn glas yn darllen y llyfr bathodynnau oherwydd nid yw llawer o ddeiliaid yn ymwybodol o'r consesiwn maent yn ei gael ar y stryd.

Eglurodd y Cadeirydd mai egwyddor yr hyn yr oedd y pwyllgor wedi ei gynnig oedd sicrhau bod y consesiwn yn gyson ac yn ymestyn i'r meysydd parcio arwyneb hefyd. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cydnabod y cyfleoedd cyfyngedig i bobl barcio ar y stryd o amgylch canol y trefi.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gwrando ar y pwynt bod rhai consesiynau ar gael, ond ei fod yn teimlo mai'r egwyddor oedd sicrhau eu bod hefyd ar gael yn y meysydd parcio.

Dywedodd y Cadeirydd mai ychydig iawn o leoedd parcio i ddeiliaid bathodyn glas sydd yn y meysydd parcio a gofynnodd i'r Aelod Cabinet beth oedd yr asesiad cyfrifo ariannol ynghylch yr argymhelliad hwn?

Dywedodd yr Aelod Cabinet, yn ei farn ef, os oes gan rywun fathodyn glas mae ganddo hawl i barcio lle bynnag y caniateir iddo barcio, ac nid yw pob person anabl yn ei chael hi'n anodd talu am barcio. Eglurodd yr Aelod Cabinet, fel person anabl a chanddo fathodyn glas, nid oes ganddo broblem gyda pharcio oherwydd consesiwn y

bathodyn glas a'r cyfleusterau sydd ar gael iddo eu defnyddio i barcio ar y ffordd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn cytuno gyda'r swyddogion y dylai deiliaid bathodyn glas ddarllen y llyfr oherwydd mae llawer o gonsesiynau i bobl a chanddynt fathodyn glas. Cynghorodd yr Aelod Cabinet nad yw'n credu y byddai deiliaid bathodyn glas eisiau cael eu rhoi mewn categori lle na allant dalu eu ffordd.

Ymatebodd yr aelodau i'r Aelod Cabinet gan egluro taw bwriad argymhelliad y pwyllgor oedd sicrhau tegwch yn yr ystyr y gallai person sy'n abl yn gorfforol wneud y siopa o fewn awr. Dywedodd yr aelodau y gall gymryd mwy o amser i rywun sy'n anabl, ac felly byddai'n rhaid iddynt dalu tâl uwch am fod ganddynt anabledd. Eglurodd yr aelodau mai syniad y pwyllgor yw cydbwyso pethau fel na ddylai rhywun sy'n anabl gael ei gosbi yn annheg a gorfod talu mwy i barcio am fwy o amser oherwydd ei anabledd.

Heriodd yr aelodau'r asesiad effaith gan eu bod yn credu bod y cynnig yn effeithio ar bobl anabl yn fwy na phobl sy'n abl yn gorfforol, a phwysleisiwyd y ffaith nad oes gan lawer o ddeiliaid bathodyn glas ail incwm.

Roedd yr aelodau eisiau gwybod a oedd yr AEI yn gadarn yn gyfreithiol, a bod sylw dyledus wedi'i roi i bobl anabl a bod yr asesiad effaith ond yn ymateb i bobl sy'n defnyddio maes parcio.

Dywedodd swyddogion ei fod yn gynllun ar y stryd, yn gyfreithiol mae'r bathodyn glas yn gonsesiwn ar y stryd. Dywedodd swyddogion, os yw aelodau'n teimlo'n gryf am hynny, gan taw cynllun cenedlaethol yw hwn, gallant lobïo’r llywodraeth ganolog i newid Cynllun y Bathodyn Glas.
Esboniodd swyddogion eu bod yn gweithredu'r consesiwn yn unol â Chynllun y Bathodyn Glas. Eglurodd swyddogion nad oes unrhyw beth wedi newid o ran Cynllun y Bathodyn Glas ers ei fod dan weinyddiaethau blaenorol yn dyddio'n ôl i 2010 o leiaf.

Dywedodd swyddogion nad ydyn nhw'n gwybod a yw'r AEI yn agored i herio ai peidio. Ailadroddodd swyddogion fod y consesiwn yn gynllun ar y stryd a chynghorwyd yr aelodau y gallent gael eu herio fel cyngor, ond fe’i gweithredir yn ôl disgresiwn y cyngor yn eu barn hwy. Barn y swyddog yw nad yw'n agwedd a gafodd ei chadarnhau.

Eglurodd y Cadeirydd y gall fod cymysgedd o ddau beth. Dywedodd fod aelodau'r pwyllgor yn sôn am y penderfyniad a gynigir yn yr adroddiad ac effeithiau'r penderfyniad yn yr adroddiad ar anabledd, sy'n cynnwys pobl anabl, parcio mewn meysydd parcio.

Dywedodd y Cadeirydd fod hynny ychydig yn wahanol i'r hyn sydd yng Nghynllun y Bathodyn Glas Cenedlaethol ac mae dyletswydd arnynt fel cyngor, a'r hyn y mae aelodau'n ei gwestiynu yw a yw'r penderfyniad i ddweud nad oes unrhyw effaith ar anabledd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn yn gywir ai peidio.

Dywedodd y Cadeirydd fod hynny'n wahanol i'r hyn a gynhwysir yng Nghynllun y Bathodyn Glas Cenedlaethol a'u bod yn gwestiynau ar wahân.

Ailadroddodd swyddogion fod yr adrannau o fewn Cynllun y Bathodyn Glas yn glir. Nid yw'n berthnasol i barcio oddi ar y stryd. Dywedwyd wrth aelodau fod cysylltiad rhwng yr anabledd a'r bathodyn glas ac ni allwch eu gwahanu.

Dywedodd swyddogion fod Cynllun y Bathodyn Glas hefyd yn dweud bod angen i ddeiliaid wirio beth yw'r taliadau a'r consesiynau o ran parcio oddi ar y stryd. Dywedodd swyddogion nad ydyn nhw'n credu eu bod wedi torri unrhyw safbwynt deddfwriaethol. Dywedodd swyddogion fod yr her o amgylch yr anabledd yn fater gwahanol.

Eglurodd swyddogion mai mater i'r cabinet yn y pen draw yw penderfynu a ydynt am fwrw ymlaen â'r mater hwn neu ei adolygu ymhellach a chael barn gyfreithiol ffurfiol.

Dywedodd y swyddog cyfreithiol nad oedd yn gallu rhoi cyngor ar Gynllun y Bathodyn Glas ei hun a'i fod wedi gofyn i'r swyddogion am eu harbenigedd ar y pwnc hwnnw, ac y gellid olrhain yr effaith gyfreithiol pe bai angen mewnbwn ar hynny. Fodd bynnag, y broblem o ran yr asesiad effaith integredig yw a oes gan aelodau'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud y penderfyniad dan sylw. Dywedodd y swyddog cyfreithiol y byddai'n gofyn i swyddogion am eu barn a ddylanwadodd ar yr asesiad effaith integredig, er mwyn darparu'r holl wybodaeth y byddai ei hangen ar aelodau, ac fel y gallant roi sylw dyledus i'r holl faterion. Eglurodd y swyddog cyfreithiol y gall gael effaith ac y byddai'n rhaid i aelodau ystyried hynny.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet a oedd MiPermit ar gael yn yr holl feysydd parcio ac awgrymodd y dylai'r awdurdod sicrhau ei fod ar

gael yn ehangach fel y gall preswylwyr ei ddefnyddio ar eu ffôn. Byddai hyn yn ddefnyddiol i bobl sy'n teimlo dan bwysau bod angen iddynt gyrraedd yn ôl mewn amser. Cadarnhaodd swyddogion fod MiPermit ar gael ym mhob maes parcio.
Dywedodd yr aelodau eu bod yn falch o weld bod y tâl am hawlenni ofalwyr wedi cael ei ddileu.

Gofynnodd yr aelodau i'r Aelod Cabinet pam mae Pontardawe'n cael ei drin yn wahanol o ran y cynnydd mewn prisiau parcio ar draws y fwrdeistref.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y cafwyd dadl hir dan weinyddiaethau blaenorol ynghylch sefyllfa parcio Pontardawe o ran yr awr o barcio am ddim.

Eglurodd yr Aelod Cabinet, gan nad oedd adroddiad y grŵp tasg a gorffen yn gwneud argymhelliad ar y pwynt hwn, yna penderfynodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ei gadw fel yr oedd i helpu'r masnachwyr drwy ei gadw'r un peth. Er, roedd Pontardawe bellach yn unol ag ardaloedd eraill o ran parcio ar ddydd Sul, hynny yw nid yw parcio ar ddydd Sul bellach yn rhad ac am ddim.

Gofynnodd yr aelodau, os cydnabyddir bod parcio am ddim ym Mhontardawe yn helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref yna pam nad yw hynny'n berthnasol i Gastell-nedd a Phort Talbot?

Dywedodd swyddogion y bu adolygiad economaidd o ganol trefi yn flaenorol o ran math a maint y cynnig manwerthu mewn canol trefi. Penderfynwyd bod gan Bontardawe gynnig llai na Chastell-nedd a Phort Talbot, a dyma oedd un o benderfyniadau sylfaenol y gweinyddiaethau blaenorol. Mewn trafodaethau gydag aelodau nid yw'r sefyllfa honno wedi newid mewn gwirionedd.
Eglurodd yr aelodau a oedd yn benderfyniad gwleidyddol neu beidio.

Dywedodd swyddogion mai'r penderfyniad sylfaenol oedd bod y math o gynnig a oedd ar gael yng Nghastell-nedd a Phort Talbot yn fwy na'r cynnig sydd ar gael ym Mhontardawe. Mater i'r cabinet yw penderfynu ar hyn.

Dywedodd yr aelodau y gofynnwyd iddynt, fel grŵp tasg a gorffen, sut i godi arian o barcio gan y glymblaid ond ni allant ddeall pam mae Pontardawe'n cael ei amddiffyn rhag y cynnydd hwnnw o'i gymharu â Chastell-nedd a Phort Talbot wrth geisio codi arian.

Dywedodd yr aelodau fod VIVA Castell-nedd a Phort Talbot yn gweithio'n galed iawn i gael pobl i ddod i ganol y trefi a'u bod eisiau eglurder ynghylch a fydd ymgynghori â masnachwyr a sefydliadau cyn codi'r taliadau, gan roi ystyriaeth arbennig i drefniadau parcio'r Nadolig gan fod yr argyfwng costau byw yn golygu bod gan bobl benderfyniadau anodd eu gwneud o ran pris parcio.

Dywedodd swyddogion nad oedd canol trefi Castell-nedd neu Bontardawe wedi cysylltu â nhw'n uniongyrchol, ond mae rheolwyr canol trefi yn cyfarfod â nhw'n rheolaidd ac roedd pob canol tref yn gwybod am yr adolygiad parcio.

Eglurodd swyddogion fod ymchwiliad penodol wedi ei gyflwyno gan VIVA Port Talbot i'r awdurdod ac yr ymatebwyd iddo gan y gwasanaethau democrataidd. Dywedodd swyddogion mai'r ymateb oedd, os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon am ffioedd parcio, gallant gysylltu â chadeirydd y pwyllgor, ac mae'n debyg nad ydynt wedi dilyn y cyngor hwnnw.
Dywedodd yr aelodau fod VIVA Port Talbot wedi siarad â nhw am eu pryderon ynghylch y taliadau parcio a'r diffyg effaith y bydd yn ei chael ar Bontardawe o gymharu â Phort Talbot. Gofynnodd yr aelodau pam y bu diffyg ymgysylltu ar hyn wrth wneud penderfyniadau a diffyg gwrando ar fusnesau yno?

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn teimlo na fu unrhyw ddiffyg ymgysylltu a'i fod yn teimlo mai VIVA oedd yn gyfrifol am gysylltu â'r cadeirydd craffu neu gadeirydd y grŵp tasg a gorffen.

Eglurodd yr Aelod Cabinet nad penderfyniad gwleidyddol oedd diogelu Pontardawe gan nad y weinyddiaeth bresennol oedd wedi gwneud y penderfyniad i roi awr o barcio am ddim i Bontardawe, ond gweinyddiaeth wahanol.
Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd argymhellion y grŵp tasg a gorffen yn cynnwys unrhyw beth am Bontardawe, felly'r penderfyniad oedd cadw'r awr o barcio am ddim fel yr oedd ond codi'r ffioedd yn unol â phob man arall yn ogystal â chodi tâl i barcio ar ddydd Sul.
Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn teimlo bod hyn yn deg yn gyffredinol.
Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ymgynghori wedi bod gyda masnachwyr ar y cynnig.

Mynegodd y Cadeirydd hefyd ei fod yn anghyfforddus gyda'r sefyllfa oherwydd pan gyflwynir cynnig gan weinyddiaeth i godi taliadau parcio, caiff masnachwyr eu cyfeirio ato ef fel Cadeirydd Craffu

oherwydd Aelodau'r Cabinet sy'n gwneud y penderfyniad. Dywedodd y Cadeirydd, er ei fod yn hapus i dderbyn adborth, yn y pen draw y Cabinet ddylai gael y trafodaethau hynny gyda masnachwyr gan taw'r Cabinet sy'n atebol am wneud y penderfyniadau o ran parcio.

Dywedodd swyddogion pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â'r argymhellion, yna byddai'n ofynnol yn gyfreithiol i'r awdurdod hysbysebu'r taliadau ac unrhyw orchmynion traffig ar gyfer parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd. Yn ystod y cyfnod hwnnw gall unrhyw un a fyddai'n dymuno gwrthwynebu'r taliadau hyn wneud hynny'n ysgrifenedig. Felly gall VIVA wrthwynebu'r taliadau fel rhan o weithdrefn statudol o fewn 28 diwrnod. Ni fydd yn broses ymgynghori.

Dywedodd Aelodau'r Cabinet fod angen iddynt drafod y mater â swyddogion eto, a nhw ddylai fod y pwynt cyswllt ar gyfer pryderon a chwynion, ond hefyd roeddent yn deall priodoldeb cyflwyno'r mater i Gadeirydd y grŵp tasg a gorffen, ond gallai fod wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet hefyd neu bwynt cyswllt y swyddogion a allai fod wedi bwydo nôl ar y mater.

Gofynnodd Aelodau'r Cabinet i aelodau'r grŵp tasg a gorffen a oeddent wedi codi'r pryderon ar ran VIVA yn y sesiynau grŵp tasg a gorffen ac a yw'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad.
Esboniodd yr aelodau mai'r glymblaid sy'n gwneud y penderfyniad a byddai'r grŵp tasg a gorffen yn ei ystyried yn unig. Dywedodd yr aelodau y gofynnwyd cwestiynau VIVA Port Talbot drwy aelodau’r grŵp tasg a gorffen ac fel aelodau roeddent am fynegi'r materion hyn i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniad, sef Aelodau'r Cabinet, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried hyn.

Dywedodd yr aelodau fod gwahaniaeth rhwng yr hysbysiad statudol a'r ymgynghoriad.

Dywedodd yr aelodau eu bod yn teimlo bod dryswch ynghylch y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r bobl sy'n craffu ar y penderfyniadau, ac mae angen sicrhau eu bod yn cael ateb gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Ailadroddodd yr Aelod Cabinet mai gweinyddiaeth flaenorol oedd wedi gwneud y penderfyniad o ran Pontardawe, a gofynnodd i'r Cadeirydd Craffu am adborth ac arweiniad ynghylch sefyllfa'r pwyllgor o ran Pontardawe.

Eglurodd y Cadeirydd nad yw'r pwyllgor wedi gwneud y penderfyniad ynghylch hyn eto felly nid oedd yn gallu siarad ar ran y pwyllgor. Eglurodd fod yr adroddiad gwreiddiol a roddwyd i'r grŵp tasg a gorffen gan swyddogion yn gofyn iddynt ystyried cynnig i gael gwared ar y parcio am awr ym Mhontardawe.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y grŵp gorchwyl a gorffen wedi gwneud unrhyw sylw ar y cynnig hwnnw, ond oherwydd bod y cynnig hwnnw wedi'i roi fel opsiwn i godi refeniw, roedd Aelodau'r Cabinet wedi gwneud y dewis i gadw'r awr o barcio am ddim ym Mhontardawe ar ôl ystyried yr adroddiad hwnnw.

Dywedodd y Cadeirydd mai cyd-destun hyn yw codi incwm. Eglurodd y Cadeirydd fod codi incwm a thaliadau yn cael effaith ar ganol trefi, felly roedd y pwyllgor yn ceisio eglurhad ynghylch pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw i gadw'r awr am ddim er ei fod yn rhoi baich ar ganol trefi eraill.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo bod y cwestiwn hwnnw wedi cael ei ateb a dywedodd ei fod eisiau egluro mai dyna oedd sail y cwestiynau a ofynnwyd gan aelodau.

Dywedodd yr aelodau eu bod yn credu bod angen ymgynghori â VIVA gan eu bod yn ceisio adfywio canol y trefi.

Dywedodd yr aelodau hefyd nad oedd y masnachwyr y maent wedi siarad â hwy yng Nghastell-nedd yn gwybod unrhyw beth am y cynnydd arfaethedig mewn parcio, na'r preswylwyr chwaith. Eglurodd yr aelodau fod y cynnydd o £5 mewn parcio ar y stryd yn mynd i effeithio ar bawb yng nghanol tref Castell-nedd yn ogystal â'r cynnydd mewn ffioedd parcio ceir.

Dywedodd yr aelodau nad ydynt yn meddwl bod ymgynghoriad wedi bod gyda phawb, ac nid yw'n ymddangos bod masnachwyr Castell-nedd na Phort Talbot wedi cael digon o wybodaeth am y taliadau a'u bod yn cwestiynu a ddylai rheolwyr canol y dref fod wedi rhoi gwybod iddyn nhw.

Cododd yr aelodau y mater nad yw'n ymddangos bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r tocynnau tymor ar gyfer parcio yng nghanol y dref yn ogystal â'r Gnoll a Pharc Margam. Dywedodd yr Aelodau ei bod yn ymddangos bod problemau gyda'r wefan. Roedd yr aelodau eisiau gwybod a oes unrhyw ffordd y gall yr awdurdod hysbysebu tocynnau

tymor yn fwy gan eu bod yn helpu i wneud y gost o barcio'n llawer rhatach.

Esboniodd swyddogion ei fod yn esgeulustod gan ei bod yn cael ei gymryd yn ganiataol bod angen hyrwyddo'r tocynnau tymor ac mae'r swyddogion yng nghanol ymgynghoriad ac yn gweithio gyda Phennaeth y Gwasanaethau Hamdden i weld a allant ddod o hyd i ddatrysiad gwell ynghylch y parciau gwledig nad ydynt dan reolaeth y gwasanaethau parcio.

Dywedodd swyddogion eu bod yn cydnabod bod cyfleoedd ar gael i wella'r cynnig hwnnw o bosib, nid yn unig ar gyfer tocynnau tymor ond fel yr amlygodd y grŵp tasg a gorffen a'r Pennaeth Hamdden, gyfleoedd lle gallai'r awdurdod hyd yn oed ddatblygu dewislen o gynigion o fewn yr awdurdod.

Defnyddiodd swyddogion enghraifft y gallai rhywun benderfynu y gall fod eisiau mynd i'r safle AquaSplash neu ymweld â Pharc Aberafan neu fynd i Barc Margam, a gallech brynu'r rheini i gyd mewn un trafodiad gyda'r awdurdod.

Dywedodd swyddogion ei fod yn syniad cadarnhaol iawn gan y grŵp tasg a gorffen, ac roedd yn esgeulustod i beidio â chynnwys hyn yn yr adroddiad ac y byddai'n cael ei farchnata. Dywedodd swyddogion hefyd y byddent yn gweithio gyda'r tîm cyfathrebu i ledaenu'r neges fel y gallai aelodau ei rhannu drwy gyfryngau cymdeithasol.

O ran y cynigion ynghylch darparu teithio am ddim ar fysus a gyflwynwyd gan y pwyllgor, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn derbyn yr ymateb y byddai ariannu rhywbeth fel hynny o'r gyllideb barcio yn heriol, ond ei fod am wybod a yw'r Cabinet yn barod i ddilyn yr hyn y mae Abertawe'n ei wneud i ddangos cefnogaeth i'r diwydiant bysus lleol ac efallai ei flaenoriaethu o gyllid arall heblaw'r cyfrif parcio, os teimlwyd ei fod yn rhywbeth a oedd yn bwysig iawn oherwydd yr holl heriau sy'n wynebu'r diwydiant bysus a nifer y teithwyr.

Eglurodd yr Aelod Cabinet nad oedd yn anghytuno â syniad yr Aelod, ond yn sylfaenol, ar hyn o bryd, oherwydd y pwysau y mae'r cyngor hwn yn eu hwynebu, ni all weld unrhyw ffordd y byddai'r awdurdod yn gallu cytuno i hyn. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod ganddynt oddeutu £80,000 mewn perthynas â ffigurau ariannu ac ar hyn o bryd, nid yw'n credu bod hynny'n ymarferol.
Dywedodd Aelodau'r Cabinet eu bod yn gwybod y gallent golli gwasanaeth bore cynnar yn Nyffryn Aman, y gallai pobl golli swyddi o

ganlyniad. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod cydbwysedd o geisio gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol.

Dywedodd Aelodau'r Cabinet ei fod yn syniad gwych ac mae Bwrdd y Cabinet am ei gefnogi wrth symud ymlaen, ond mae'n gylch anfad lle byddai'r gwasanaeth yn dod yn fwy hyfyw pe byddai mwy o bobl yn defnyddio bysus, ond mae'n waith anodd iawn ceisio blaenoriaethu a chadw'r gwasanaethau hanfodol yn unig.

Dywedodd Aelodau'r Cabinet hefyd nad yw'r cyllid ar gael, mae'r gwasanaeth bysus yn gyfnewidiol iawn ar hyn o bryd gyda gwasanaethau'n cael eu lleihau, felly mae blaenoriaethau mawr o safbwynt swyddog a'r Cabinet fod y sefyllfa'n cael ei hystyried.

Awgrymodd Aelod y Cabinet, er gwaethaf hyn, y byddai'n barod i gwrdd â'r Cadeirydd Craffu yn y dyfodol i wrando ar eu hopsiynau, gwrando ar rai o'r argymhellion, ond pa gynigion bynnag sy'n cael eu cyflwyno, mae angen i'r cyllid fod ar gael o rywle hefyd.

Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r sefyllfa fysus bresennol gan egluro eu bod yn bryderus iawn am sefydlogrwydd gwasanaethau bysus yn y sir ac yn ehangach ar draws y rhanbarth. Esboniodd swyddogion y gallai fod rhai penderfyniadau anodd iawn ynghylch gwasanaethau bysus yn y dyfodol.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) wedi'i gyflwyno mewn ymateb i'r pandemig a'i fod yn cadw gwasanaethau bysus lleol yn fyw, oherwydd heb y BES ni fyddai'r cwmnïau bysus sy'n gweithredu heddiw yn gweithredu o hyd.

Eglurodd swyddogion fod y cynllun yn mynd i ddod i ben ym mis Mawrth 2023 ond mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn hynny hyd at ddiwedd mis Gorffennaf ac wedi ymrwymo i gytundeb arian pontio newydd.

Hysbyswyd yr aelodau fod yr arian yn llawer llai ar y lefel genedlaethol nag yr oedd o'r blaen. Eglurodd swyddogion mai effaith ganlyniadol hynny yw y bydd gwasanaethau hanfodol yn debygol o gael eu lleihau.
Esboniodd swyddogion i'r aelodau, er bod yr awdurdod yn ystyried rhoi gwasanaeth am ddim am ychydig o benwythnosau cyn y Nadolig, gallai fod yn well i'r awdurdod wario'r arian hwnnw ar gynnal gwasanaethau bysus ledled y sir fel y gall pobl fynd i apwyntiadau iechyd, i weithio ac i ddysgu drwy gydol y flwyddyn. Mae'n her

wirioneddol ac yn yr hinsawdd sydd ohoni, ni all swyddogion weld sut y gellir cyflawni hynny.

Eglurodd swyddogion hefyd, wrth gyfeirio at awdurdodau lleol eraill fel Abertawe sy'n rhedeg cynllun tebyg, mae gan Abertawe ffioedd a thaliadau parcio llawer uwch na'r awdurdod hwn ac mae'r hyn y mae Castell-nedd a Phort Talbot yn ei gynnig yn dal yn rhatach na chostau Abertawe. Mae'n debyg y bydd y taliadau parcio uwch yn Abertawe yn rhyddhau rhywfaint o gyllid, ond hefyd mae gan Abertawe AGB fawr iawn sy'n cyfrannu at rai o'r mentrau hynny ac roedd y cyngor wedi penderfynu cyfrannu ei arian ei hun at hynny.

Dywedodd swyddogion nad yw'r awdurdod yn y sefyllfa honno yn anffodus, a dyna pam mae swyddogion wedi argymell nad yw'n gynaliadwy. Dywedodd swyddogion nad ydynt yn credu y byddai byth yn gynaliadwy drwy incwm o'r cyfrif parcio ac y byddai'n rhaid iddyn nhw fod yn rhan o'r rhaglen blaenoriaethu cyllideb y byddai angen i'r cyngor ei hystyried wrth symud ymlaen.

Dywedodd swyddogion wrth aelodau y gall fod angen iddynt gyfrannu mwy o gymhorthdal i gadw'r gwasanaethau hanfodol i fynd yn hytrach na chynnig gwasanaethau am ddim am ychydig o benwythnosau yn ystod cyfnod y Nadolig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am roi'r sefyllfa o ran bysus yn ei chyd-destun, a theimlodd mai'r pwynt allweddol yw, os oedd aelodau'r cabinet yn teimlo eu bod am flaenoriaethu'r mater hwn, yna gellir ei flaenoriaethu yn y broses pennu cyllidebau.

Dywedodd y Cadeirydd fod llawer o fanteision i gyflwyno cynllun fel hwn a'r her yw, a oes angen i'r awdurdod ddyrannu rhywfaint o gyllid i ddiogelu gwasanaethau presennol yn erbyn cynllun fel hwn?

Dywedodd y Cadeirydd, os oes gan Aelodau'r Cabinet feddwl agored ac os oes cyllid ar gael, os yw'n rhywbeth y maent yn cytuno arno fel syniad da a'i fod yn rhywbeth yr hoffent ei wneud, yna os daw'r cyllid hwnnw ar gael, mae'n rhywbeth y byddent yn ei ystyried.
Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd, yn ei rôl newydd sy'n cwmpasu canol trefi, hoffai fynd allan gyda'r aelodau lleol sy'n gweithio yng nghanol y dref a cheisio ymgysylltu'n well â nhw ar rywbeth fel hyn er mwyn cael adborth cyn llunio adroddiadau, a chan aelodau lleol hefyd.

Cytunodd y Cadeirydd a dywedodd ei bod yn anffodus bod dyraniadau wedi'u clustnodi yn y gyllideb cyn ystyried y manylion yn yr achos hwn. Dywedodd y Cadeirydd fod llawer o fudd i wneud y gwaith hwnnw ymlaen llaw, oherwydd gall fod y dyraniadau sy'n cael eu clustnodi yn y gyllideb cyn ystyried y manylion wedi achosi rhywfaint o anhawster, yn enwedig yn y ffaith ei bod bron yn fis Awst ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar daliadau parcio ac nid yw'r awdurdod yn mynd i fodloni'r targedau incwm o ganlyniad.
Dywedodd yr aelodau na allai eu cymuned gael mynediad at drafnidiaeth i'w cymunedau eu hunain yng Nghastell-nedd a Phort Talbot oherwydd yr anawsterau o gael dau fws y dydd yn unig ac yn aml maent mor llawn, ni all pobl fynd arnynt. Dywedodd yr aelodau fod hyn, ynghyd â hyd yn oed y tlotaf yn gorfod gallu rhedeg car i deithio allan o gymunedau wedi arwain at orfod sefydlu cynllun cludiant cymunedol.
Dywedodd yr aelodau fod angen i'r cyngor ystyried rhoi cymhorthdal ar gyfer rhai gwasanaethau a sicrhau bod cymunedau'n cael eu gwasanaethu. Mae aelodau'n teimlo bod hynny'n rhywbeth y mae cynghorau eraill yn llwyddo i'w wneud ac nid yw'n digwydd yn yr awdurdod hwn.

Dywedodd yr aelodau eu bod am gael cymorth i alluogi cludiant bysus ar gyfer cymunedau pellennig a pheidio â'u cosbi drwy godi gormod o dâl am barcio ar yr un pryd. Dywedodd yr aelodau fod hyn yn gweithredu fel treth anuniongyrchol i gadw'r cyngor i weithredu a'r gyllideb yn gytbwys.

Amlygodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru yn mynd i gael trafferth gyda'r gyllideb ac mae'n ddyletswydd ar bawb i lobïo'r llywodraeth genedlaethol a Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn trafnidiaeth. Dywedodd swyddogion fod senario cyllideb yr awdurdod yn heriol iawn pan fyddwch yn ceisio rheoli'r gyllideb gyda'r holl bwysau sy'n dod i'r amlwg, a chyda gofynion newydd ar yr holl wasanaethau.

Amlygodd Aelod y Cabinet dros Strydlun fod ganddynt broblemau tebyg gyda bysus yn eu cymuned a byddai toriadau i wasanaethau boreol yn golygu na fyddai pobl yn gallu cyrraedd y gwaith, cynghorodd yr Aelodau i geisio dylanwadu ar yr awdurdodau yn y Cynulliad.

Eglurodd yr Aelodau fod y grŵp tasg a gorffen wedi dewis yr oriau diwygiedig ar gyfer y taliadau glan môr yn ofalus i roi baich mwyaf y tâl ar ymwelwyr a pheidio â chosbi preswylwyr sydd am ddefnyddio'r

ardal glan môr a'r busnesau cysylltiedig yn annheg, hefyd gofynnwyd pam y bu newid i'r oriau gorfodi presennol.

Nododd swyddogion fod y grŵp tasg a gorffen am weithredu'r taliadau glan môr rhwng 9.00am a 6.00pm ac eglurwyd bod swyddogion yn gweithio tan wyth, sy'n golygu na fyddai unrhyw beth yn cael ei orfodi ar lan y môr am ddwy awr. Dywedodd swyddogion eu bod yn deall rhesymau'r pwyllgor, mae angen i swyddogion gorfodi fod yno yn ystod yr oriau brig yn y prynhawniau rhwng 8.00am ac 8.00pm.

Holodd yr aelodau a ellid defnyddio'r swyddogion gorfodi mewn mannau eraill yn ystod y cyfnod hwnnw gan eu bod yn teimlo bod 6.00pm yn rhesymol a'i fod yr un peth â chanol y dref. Roedd yr aelodau'n poeni y byddai busnesau ar hyd y traeth yn cael eu cosbi am y ddwy awr ychwanegol, gan golli allan o bosib ar bobl a fyddai'n ymweld â nhw.
Dywedodd swyddogion fod yr awdurdod wedi cael ei gymharu â rhai awdurdodau eraill o ran darparu parcio am ddim neu fentrau am ddim. Ond ar y llaw arall nid yw'r awdurdod wedi cael ei gymharu ag awdurdodau megis Dinas a Sir Abertawe lle maen nhw'n codi tâl am barcio tan 10.00pm. Esboniodd swyddogion eu bod wedi cael y dasg fel swyddogion i geisio cynhyrchu arian a'u bod wedi dewis bod yn hyblyg o ran parcio ar lan y môr, gan roi rhywfaint o gonsesiwn i gefnogi'r trefniant.

Dywedodd swyddogion fod ganddynt gyfrifoldeb i fanteisio i'r eithaf ar yr oriau gorfodi.

Esboniodd swyddogion fod yr ardal glan môr yn boblogaidd yn ystod cyfnod brig yr haf, a byddai swyddogion yn tueddu i orfodi'r ardal honno i sicrhau'r orfodaeth fwyaf posib i gynhyrchu incwm ac i gydymffurfio â pharcio diwahân.

Dywedodd swyddogion ei bod bron wedi bod yn her amhosib i wneud arian a darparu gwasanaethau am ddim.
Dywedodd swyddogion fod y strategaeth hon yn mynd i gael ei monitro ac os yw'r awdurdod yn credu bod buddion neu ddiffyg buddion, yna byddai hynny'n cael ei adolygu ymhen 12 mis o'i gweithredu.

Cafwyd trafodaeth rhwng swyddogion ac aelodau ynghylch y rhesymeg o newid yr oriau y codir tâl amdanynt i fodloni'r oriau gorfodi.

Mynegodd yr aelodau'r farn nad oedd yn gwneud synnwyr gan y gall yr awdurdod godi swm sylweddol o incwm rhwng 9.00am a 6.00pm sef yr amser prysuraf o ran ymwelwyr glan môr, ac mae'r taliadau'n dyblu fel rhan o'r cynigion a fydd yn cynhyrchu incwm sylweddol.

Roedd yr aelodau eisiau deall pam na all swyddogion adleoli'r staff gorfodi mewn mannau eraill am y ddwy awr oedd yn weddill ac roeddent am ddeall y rhesymeg ariannol ynghylch pam na ddylid newid yr oriau y codir tâl amdanynt i'r rheini nad ydynt yn cyd-fynd â'r oriau gorfodi.

Dywedodd swyddogion fod heriau sylfaenol o ran trin un ardal ar wahân i ardaloedd eraill, gan gyfeirio at lan y môr yn erbyn y parciau gwledig ac atyniadau eraill i ymwelwyr o ran darparu consesiynau mewn un ardal dros y llall.

Esboniodd yr aelodau fod glan y môr yn ardal eithaf amlwg gan nad yw'n barc â gatiau ac mae'n cynnwys busnesau, a'i fod yn gyrchfan. Tynnodd yr aelodau sylw at y gwahaniaeth mewn parcio yng nghanol y dref o'i gymharu â glan y môr pe byddech am gael pryd o fwyd gyda'r hwyr gan y codir tâl ar lan y môr tan 8.00pm yn y cilfannau ar y stryd. Roedd yr aelodau eisiau gofyn i swyddogion am resymeg yr oriau 8.00am i 8.00pm.

Eglurodd swyddogion mai'r bwriad yn ystod cyfnodau brig yw eu bod yn ceisio mwyafu incwm a gorfodi'r oriau gweithredol hynny i sicrhau bod y bobl yn talu.

Esboniodd swyddogion y dylai'r awdurdod fod yn ymestyn y tâl yn ehangach  hyd at 10.00pm neu er enghraifft ym maes parcio aml-lawr Castell-nedd, sydd ar agor tan 11.00pm dylai'r awdurdod fanteisio ar hynny a chodi tâl tan 11.00pm.

Dywedodd swyddogion fod rhai heriau sylfaenol i aelodau o ran egwyddorion lle nad oes trosolwg clir o'r strategaeth honno.

Cafwyd trafodaeth rhwng swyddogion a'r Cadeirydd ynglŷn â'i ddiffiniad o breswylwyr yn ymweld â glan y môr. Roedd swyddogion eisiau i'r Cadeirydd ddiffinio'r hyn yr oedd yn ei olygu gan yr 'ardal leol'.

Eglurodd swyddogion os oedd y preswylwyr yn byw yn ardal leol rhanbarth Port Talbot, yna roeddent o fewn pellter cerdded neu feicio

i lan y môr. Eglurodd swyddogion fod y Cadeirydd yn golygu eu bod yn dewis gyrru i lan y môr, felly byddai'n rhaid iddynt ddisgwyl talu tâl, felly nhw sy'n penderfynu ble i fynd. Roedd swyddogion eisiau gwybod a oedd y Cadeirydd yn golygu preswylwyr glan môr lleol neu'r awdurdod ehangach, ond pe baech yn dewis gyrru i lan y môr byddech yn disgwyl gorfod talu i barcio.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod yn ymwneud â phobl sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol sy'n gorfod gyrru i lan y môr oherwydd mae cludiant cyhoeddus yn wael ac roedd yr aelodau'n cytuno ei bod yn bwysig codi tâl a gorfodi ar lan y môr, ond nid oeddent am i'r tâl effeithio'n andwyol ar fusnesau a phreswylwyr sy'n ymweld at ddibenion hamdden, iechyd meddwl neu ymarfer corff.
Dywedodd y Cadeirydd mai argymhelliad y grŵp tasg a gorffen oedd gosod y baich codi tâl ar ymwelwyr yn hytrach na phreswylwyr lleol sy'n defnyddio glan y môr fel man amwynderau, na allant fel arall gerdded na beicio i lan y môr. Gan fod ymwelwyr yn tueddu i beidio ag ymweld gyda'r hwyr, gallai preswylwyr a hoffai gael pryd o fwyd yn un o'r busnesau wneud hynny heb dalu, a dyna pam eu bod am greu cydbwysedd gyda'r cyfnod codi tâl a awgrymwyd.

Roedd y Cadeirydd eisiau deall rhesymeg yr ymateb. Yr oriau presennol yw 7am-10pm, awgrym y grŵp tasg a gorffen yw 9am-6pm, y cynnig presennol yw 8am -8pm, yr unig esboniad sydd wedi bod yw dyna'r oriau gorfodi, ond nid ydynt yn deall y rhesymeg gan fod y Cadeirydd yn teimlo y dylai'r oriau gorfodi gyd-fynd â'r oriau y codir tâl amdanynt. Gofynnodd y Cadeirydd a ydyn nhw'n gwneud penderfyniad rhesymol o ran yr oriau y codir tâl amdanynt, beth yw'r rhesymeg y tu ôl i'r oriau y codir tâl amdanynt yn yr adroddiad?

Esboniodd swyddogion eu bod wedi edrych ar y cynnig ac wedi lleihau'r oriau y codir tâl amdanynt, ond eu bod wedi cael y dasg o gynhyrchu incwm ychwanegol i leihau'r diffyg. O'r ochr orfodi, maent yn teimlo nad yw'n gwneud synnwyr i leihau'r oriau incwm a cholli 3 awr heb orfodaeth a cholli'r incwm ychwanegol hwnnw.

Mynegodd yr aelodau bryderon am barcio anghyfreithlon yn ystod yr haf ac roeddent am wybod a oedd opsiynau eraill yn cael eu hystyried cyn gofyn i'r grŵp tasg a gorffen helpu i ddod o hyd i'r £300,000 ar gyfer parcio.

Roedd yr aelodau hefyd eisiau sicrwydd y bydd pobl yn cael dirwy neu docyn os ydyn nhw'n parcio'n anghyfreithlon, ac os ydyn nhw'n

parcio'n anghyfreithlon, a yw'n mynd i gostio arian i'r adran gyfreithiol fynd ar drywydd dirwyon nad ydynt yn cael eu talu?

Esboniodd swyddogion fod un tariff ar lan y môr felly'r unig dro y byddai person yn cael tocyn yw os nad yw'n prynu tocyn i barcio. Dywedodd swyddogion os yw'r cynigion yn mynd yn eu blaen, yna gallant benodi swyddog i'r cilfachau aros cyfyngedig ar lan y môr er mwyn gorfodi yn y cilfachau a'r maes parcio.

Eglurodd swyddogion hefyd ei fod yn orfodaeth ac ni fyddai'r adran gyfreithiol yn ymdrin â hwn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Eglurodd swyddogion os cyhoeddir PCN am beidio â chael tocyn talu ac arddangos neu docyn drwy'r ap, yna byddai gorfodaeth yn mynd ar drywydd hyn.

Mynegodd yr aelodau'r pryder na fydd unrhyw un o'r ardal leol sy'n ymweld â'r traeth am ddim ar hyn o bryd am gyfnod cyfyngedig yn gwneud hynny yn y dyfodol oni bai eu bod yn ei wneud yn gynnar yn y bore neu gyda'r hwyr. Esboniodd yr aelodau y byddai hyn yn gwneud i fenywod sy'n mynd â'u cŵn am dro ar eu pennau eu hunain osgoi gwneud hynny, ac roeddent eisiau gwybod a ymgynghorwyd â phobl leol.

Eglurodd swyddogion y dylai cyflwyno'r taliadau olygu y bydd mwy o gyfle i bobl barcio oherwydd bydd yn rhaid i geir symud o ganlyniad i'r terfyn amser. Ar hyn o bryd mae pobl yn parcio am 8am ac yn gadael am 11pm a fyddai'n atal preswylwyr rhag parcio.
Mynegodd yr aelodau bryderon bod angen edrych ar ystod lawn o'r blaenoriaethau fel cyngor i wneud ardal yr awdurdod yn lle hyfryd i weithio a byw ynddo, a thrwy godi tâl ar yr adegau a awgrymwyd gall rhwystro rhai aelodau o'r cyhoedd na allant fforddio ymweld tair gwaith yr wythnos rhag dod i'r traeth, sydd ar hyn o bryd yn defnyddio glan y môr ar gyfer eu hiechyd meddwl etc.

Holodd yr aelodau am y parcio gyda'r hwyr ac a fyddai rheol codi tâl fesul awr neu 2 awr ar gyfer y cilfachau.
Dywedodd swyddogion y bydd parcio'n costio £4 y dydd ond bydd y cilfachau'n aros ar uchafswm o ddwy awr am £1.00 yr awr. Dim ond yn ystod oriau brig y codir tâl ar gyfer y cilfachau ac yn ystod cyfnod y gaeaf byddant yn rhad ac am ddim. Clywodd yr aelodau fod y prif feysydd parcio yn mynd i fod ar gyfradd safonol o £4 y dydd yn yr argymhellion.

Holodd yr aelodau am yr AEI mewn perthynas â glan y môr ac eglurwyd bod ganddynt aelodau o'r teulu na allant gerdded mwy nag ychydig lathenni heb orfod stopio.

Roedd yr aelodau'n poeni na fyddai aelodau o'u teulu byth yn gallu cerdded na beicio i lan y môr a phan fyddant yn parcio yn y maes parcio ar draws y ffordd, mae'n cymryd tua 20 munud i fynd o'r maes parcio i lan y môr.

Teimlai'r aelodau y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar bobl anabl ac roedden yn teimlo bod angen ail-wneud yr AEI.

Esboniodd swyddogion fod Cynllun y Bathodyn Glas yn berthnasol i'r cilfachau aros cyfyngedig ar hyd glan y môr, a gall deiliaid bathodynnau glas barcio yn y mannau aros cyfyngedig gydag eithriad i'r terfyn amser a hefyd eithriad i'r taliad.

Cododd yr aelodau'r pwynt bod y grŵp tasg a gorffen wedi argymell archwilio'r posibilrwydd o barcio faniau gwersylla ar lan y môr dros nos, byddai hyn yn codi refeniw ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, ond nodwyd nad oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac roeddent eisiau gwybod a fyddai'n cael ei ystyried?

Dywedodd swyddogion eu bod ar fin cyflwyno adroddiad strategaeth glan môr i Bennaeth y Gwasanaethau Hamdden ynghylch yr ardal glan môr gyfan a bydd parcio i faniau gwersylla yn rhan o'r cylch gwaith hwnnw, a byddant hefyd yn edrych arno ledled y sir i weld a ellir ei gyflwyno mewn mannau eraill yn y fwrdeistref sirol.

Teimlai'r aelodau fod hyn yn syniad gwych ac roeddent yn falch y byddai'n cael ei ystyried.
Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn meysydd parcio ar y traeth a'r angen am feysydd parcio â gatiau yn y nos i frwydro yn erbyn hyn. Mynegodd yr aelodau bryderon na fyddai pobl eisiau parcio'u faniau gwersylla yno o ystyried yr ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Hysbyswyd yr aelodau bod swyddogion yn ymwybodol o'r materion yno a byddant yn bwrw ymlaen â hynny gyda Phennaeth y Gwasanaethau Hamdden fel rhan o'r strategaeth ac efallai y bydd lleoliad yn cael ei nodi nad yw o bosib yn y meysydd parcio sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nid oedd swyddogion yn gwybod ar hyn o bryd, a gallai fod yn ardal ddynodedig a fyddai'n llawer haws ei rheoli.

Holodd yr aelodau hefyd am un o'r argymhellion a godwyd gan y grŵp tasg a gorffen ynghylch edrych ar fesurau lliniaru mewn perthynas â'r ardaloedd preswyl cyfagos o amgylch glan y môr, ac awgrymwyd y gallai'r argymhelliad hwn annog pobl i geisio parcio ar y stryd mewn strydoedd preswyl.

Dywedodd swyddogion eu bod yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r taliadau parcio. Awgrymodd swyddogion fod angen adolygu'r ddogfen polisi cynlluniau parcio ar y stryd i breswylwyr gan ei bod ychydig yn anhyblyg yn y ffordd y mae'n cael ei defnyddio.

Dywedodd swyddogion fod cyfle i adolygu'r sefyllfa bolisi sy'n cynnwys mannau allweddol y gallwn eu hadolygu.

Eglurodd swyddogion hefyd, mewn perthynas â pharcio i breswylwyr, fod angen ystyried y chwyldro sydd ar ddod o ran isadeiledd cerbydau trydan a gwefru. Roedd swyddogion eisiau ail-sicrhau'r pwyllgor craffu a'r Cabinet fod angen trafod isadeiledd gwefru cerbydau trydan fel darn o waith ar wahân ac o bosib gyda grŵp tasg a gorffen yn benodol.

Roedd gan yr aelodau gwestiynau mewn perthynas â pharth i gerddwyr Castell-nedd ac roeddent yn pryderu y gall fod yn beryglus iawn gyda'r hwyr gyda'r traffig yn symud i'r dref yr adeg honno o'r nos ynghyd â'r caffis palmant.

Roedd yr aelodau'n pryderu nad yw'r cynnig i gau gyda'r hwyr yn trosglwyddo i sesiynau'r bore gan fod masnachwyr wedi dweud y byddent yn siomedig pe bai'r awdurdod yn cau'r dref ar gyfer sesiwn y bore sy'n rhedeg tan 10.30am.

Esboniodd swyddogion fod canol y dref yn gymhleth yn y ffordd y mae'n derbyn nwyddau a gwasanaethau a danfoniadau nwyddau i'r busnesau. Dywedodd swyddogion fod angen iddynt gynnal adolygiad dichonoldeb priodol o ran unrhyw newidiadau a wneir i'r gorchmynion yng Nghastell-nedd.

Hysbyswyd yr aelodau y byddai angen ymgynghoriad manwl a thrylwyr iawn gyda'r masnachwyr oherwydd gallai cyfyngu canol y dref yn y ffordd a awgrymwyd gan y grŵp tasg a gorffen gael effaith niweidiol bosib ar fusnesau gan y bydd angen mynediad i ganol y dref ac oddi yno yn ystod yr adeg honno o'r dydd gan fod parcio wedi 5pm yn cael ei wahardd yn y gorffennol, ond newidiwyd hyn ar gais yr aelodau i gefnogi'r economi gyda'r hwyr yn dilyn asesiad.

Awgrymodd swyddogion fod angen ystyried y sefyllfa fel dichonoldeb a'i rhoi ar y rhestr i'w hystyried fel rhan o'r rhaglen flaenoriaethu diwedd blwyddyn o bethau a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer dichonoldeb wrth symud ymlaen.

Dywedodd swyddogion fod diogelwch cerddwyr yn bwysig, a'u bod yn teimlo bod angen adolygu'r holl gynnig diogelwch o amgylch canol y dref ynghyd â golwg newydd ar sut mae canol y dref yn cael ei reoli.

Dywedodd swyddogion fod yna fenter y bydd hyn, os yw'n cael ei flaenoriaethu yn yr hydref, yn cael ei ystyried yn fanwl ac yn dilyn ymgynghoriad manwl gyda'r masnachwyr ac aelodau etholedig lleol canol y dref.

Cytunodd yr aelodau â swyddogion ac roeddent yn teimlo bod ymgynghoriad yn hanfodol, nid oedd yr aelodau am weld newidiadau'n cael effaith negyddol ar ffyniant canol y dref.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn cydnabod bod hyn yn rhywbeth a oedd yn werth edrych arno ac yn gwerthfawrogi'r heriau yn y rhaglen gyfalaf priffyrdd a'r angen i flaenoriaethu hyn. Gofynnodd i'r swyddogion a oedd yn werth siarad â chydweithwyr ym maes adfywio a chanol trefi i ystyried os oes modd ei ariannu y tu allan i waith priffyrdd, mae'n amlwg bod manteision i adfywio canol y dref ac efallai fod hwn yn llwybr arall y gellid ei archwilio?

Cytunodd y swyddogion ac eglurwyd eu bod yn gwybod bod cyfleoedd i ganol trefi sicrhau grantiau ac mae'n ddigon posib y bydd hynny'n gyfle iddynt ddefnyddio dull ar y cyd ac maent yn hapus i weithio mewn unrhyw ffordd i gyflawni'r dichonoldeb hwnnw er mwyn dod o hyd i'r canlyniad gorau i bawb gan ystyried y pryderon a fynegwyd gan yr aelodau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod dau ymgynghoriad cyfredol ynghylch strategaethau canol y dref hefyd, ond hefyd ail-ymgysylltu â'r masnachwyr. Dywedodd ei fod yn ceisio cynnwys popeth fel rhan o'r ymgynghoriad a sicrhau ei fod yn cael ei fwydo'n ôl drwy'r ymgynghoriadau fel y gall ddylanwadu ar y broses.
Dywedodd yr aelodau yr ymgynghorir ag aelodau lleol ynghylch yr adolygiad o ganol y dref, yr oeddent yn hapus yn ei gylch, ond nododd yr aelodau fod dau ymgynghoriad arall, ac ymarfer dichonoldeb yn mynd rhagddynt yn y trefi nad oedd aelodau'n

ymwybodol ohonynt. Gofynnodd aelodau lleol pryd y byddent yn cael eu cynnwys?

Eglurodd yr Aelod Cabinet ei fod newydd glywed am hyn yr wythnos hon ac y byddai'n sicrhau bod cynghorwyr lleol yn cael eu cynnwys.

Cynghorodd swyddogion yr aelodau hefyd fod y tîm adfywio yn gweithio gyda'r ymgynghorwyr, The Urbanists, mewn perthynas â'r cynlluniau lleoedd i wneud yr hyn a elwir yn gynllun lle ar gyfer canol y trefi. Byddai hyn ar gyfer Castell-nedd, Pontardawe a chanol trefi eilaidd a thrydyddol fel Tai-bach, Llansawel etc. Maent yn mynd i lunio cyfres o ddogfennau ar gyfer prosiectau adfywio parthau cyhoeddus posib y gallent fod eisiau eu hystyried ar gyfer canol y trefi yn y dyfodol ac mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo.

Dywedodd swyddogion na fydd hyn yn cael ei gwblhau tan ddiwedd y flwyddyn galendr. Ond pan fydd gennym y cynnyrch gan The Urbanists, bydd cyfres o weithdai ac ymgynghoriadau a fydd yn cynnwys aelodau lleol. Fe'i cyflwynir ar gyfer ymgynghoriad llawn, cyson.

Hysbyswyd yr aelodau hefyd fod yr awdurdod wedi sicrhau grant eleni ar gyfer dichonoldeb ar ganol y dref yn ogystal â gweld sut y gall canol y dref wella teithio llesol a cherdded. Esboniodd swyddogion nad ydynt mewn sefyllfa i ymgynghori hyd nes y byddant wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb. Dywedodd swyddogion y bydd yr aelodau lleol yn rhan o'r ymgynghoriad hwnnw hefyd.

Gwnaeth yr aelodau sylw am y gweinyddiaethau parhaus sy'n defnyddio meysydd parcio fel ffordd o ddarparu gwasanaethau'r cyngor. Awgrymodd rhai aelodau ei fod yn sylfaenol anghywir mewn egwyddor. Awgrymodd yr aelodau na ellir darparu gwasanaethau'r cyngor yn seiliedig ar barcio ceir pan nad yw'n hysbys faint o bobl sy'n mynd i ddefnyddio'r meysydd parcio.

Awgrymodd yr aelodau nad yw parcio'n ffordd o wneud llawer o arian, a gofynnwyd i aelodau edrych ar barcio ceir, a'r flwyddyn nesaf pan ddaw'r amser i bennu'r gyllideb roedd yr aelodau'n gobeithio na fyddai parcio'n cael ei gynnwys ynddi a'i fod yn ffordd o greu ychydig o incwm ychwanegol i'w wario ar wasanaethau dewisol yn hytrach nag unrhyw beth arall.

Yn dilyn trafodaeth, cyflwynwyd y diwygiadau canlynol gan y pwyllgor craffu.

Opsiwn 6 - Diwygio'r oriau y codir tâl amdanynt i 9am i 6pm
Opsiwn 7 Codi tâl rhwng yr oriau 9am i 6pm

Mae argymhelliad ychwanegol 1 yn nodi y dylai deiliaid bathodynnau glas gael awr o barcio yn ychwanegol i'r tariffau presennol yng nghanol trefi i adlewyrchu'r amser ychwanegol sydd ei angen ar bobl anabl, mae hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar bobl anabl o ganlyniad i'r cynnydd mewn taliadau parcio fesul awr.

Bod argymhelliad ychwanegol yn cael ei ychwanegu:
Bod ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal ar y cynigion hyn gyda'r gymuned, gan gynnwys busnesau a phreswylwyr cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i Fwrdd y Cabinet gyda'r diwygiadau.

4. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.
TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH**

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 14 Medi 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, R.Davies, N.Goldup-John, C.James, S.Grimshaw, S.M.Penry, L.Williams a/ac S.E.Freeguard |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Morris, N.Pearce, C.Plowman, M.Roberts, A.Thomas, J.Stevens, L.Beynon a/ac T.Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hurley a/ac S.Jones |

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Nododd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o agenda Bwrdd y Cabinet:

· Eitem 7. Diwygiad i is-ddeddf sy'n gwahardd beicio ger Gatiau Coffa Castell-nedd ac ar hyd y llwybr rhwng y pwll gwaelod a Chilgant Cimla
· Eitem 8. Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus - Glan Môr Aberafan
· Eitem 9. Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) - Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (CC)
· Eitem 10. Adolygiad Parcio 2023

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fudd.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Diwygiad i is-ddeddf sy'n gwahardd beicio ger Gatiau Coffa Castell-nedd ac ar hyd y llwybr rhwng y pwll gwaelod a Chilgant Cimla

Roedd yr Aelodau'n poeni am y perygl i unrhyw feicwyr anghyfrifol sy'n beicio'n gyflym i lawr y bryn drwy'r gatiau. Roedd yr Aelodau eisiau gwybod a oedd hi'n bosib agor y ddwy gât ochr fel y byddai'n rhaid iddynt ddod oddi ar eu beic i basio.

Holodd yr Aelodau a fyddai'r gatiau ar agor yn ystod digwyddiadau coffa pwysig fel Brwydr Prydain neu'r Cadoediad.

Dywedodd Swyddogion mai adroddiad gweithdrefnol oedd hwn i ymgynghori ar gael gwared ar wahardd beicio. Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Teithio Llesol, byddai angen i Swyddogion sicrhau bod y prif gatiau'n aros ar agor.
Dywedodd Swyddogion na fydden nhw'n cael cefnogaeth pe bai'n rhaid i feicwyr ddod oddi ar eu beic wrth y gatiau. Dywedodd Swyddogion y byddai swyddogion ar gyfer gwasanaethau coffa yn atal y gorchymyn ac yn cau ffyrdd i hwyluso'r digwyddiadau. Pe bai'r gatiau'n aros ar agor, ar ôl y gwasanaethau, byddai torchau'n cael eu gosod mewn ffordd na fydd yn achosi rhwystr i'r beicwyr.

Roedd yr Aelodau am gadw mewn cof ei fod yn gofeb ac i gadw pobl yn ddiogel.

Dywedodd Swyddogion y gallai fod modd ystyried arwyddion ychwanegol i wneud pobl yn ymwybodol o'r angen i barchu'r cofebau wrth feicio heibio ac i fod yn ofalus.

Teimlai'r Cadeirydd fod y pwynt am barchu'r cofebau yn un da ac y byddai Aelodau o'r cyhoedd yn gwerthfawrogi pe byddai'n cael ei adlewyrchu yn yr ymgynghoriad.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd rhan ar wahân o'r llwybr wedi'i neilltuo ar gyfer beicwyr.

Dywedodd Swyddogion fod y llwybr wedi'i ddylunio felly mewn egwyddor, a bydd Swyddogion yn ymgynghori ymhellach ar yr hyn fydd y cynigion. Efallai y bydd rhannau ohono'n llwybr a rennir, ac

efallai y byddant yn gallu cyflawni llwybrau beicio a llwybr troed i gerddwyr ar wahân mewn ardaloedd eraill. Ymgynghorir ar hyn yn y cam dylunio manwl.

Esboniodd Swyddogion mai rhan fach yn unig o'r llwybr Teithio Llesol yw hwn.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae llwybrau yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu. Nid oedd yr Aelodau'n credu bod hyn yn flaenoriaeth amlwg o'i gymharu â llwybrau eraill mewn mannau eraill.

Dywedodd Swyddogion fod y llwybr rhwydwaith mabwysiedig ar gyfer yr awdurdod wedi nodi 500 o lwybrau. Nid oes canllawiau clir bellach gan Lywodraeth Cymru na Thrafnidiaeth Cymru ar sut i flaenoriaethu'r rhain. Ar hyn o bryd, mae llwybrau blaenoriaeth uchel, isel a chanolig. Mae Swyddogion yn aros am offeryn meddalwedd sy'n mynd i helpu awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r cynlluniau ymhellach.

Esboniodd Swyddogion y byddant wedyn yn ceisio darparu'r rhain yn seiliedig ar ailasesu blaenoriaethu llwybrau gyda'r bwriad o sicrhau grantiau i gyflawni'r rheini. Bydd rhai cynlluniau yn cael eu cyflwyno ar wahanol gamau gan y gallai fod angen prynu tir gan bartïon preifat ar gyfer rhai llwybrau ac efallai y bydd ymgynghori hefyd gydag ymgyngoreion statudol.

Yn dilyn craffu roedd yr Aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus GDMAC - Glan Môr Aberafan</u>

Cyflwynodd Swyddogion yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd i'r Aelodau.

Mynegodd yr Aelodau gefnogaeth i adnewyddu'r gorchymyn ac roeddent yn teimlo bod y gwaharddiadau blaenorol wedi cadw glan y môr yn fwy diogel. Gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion ystyried defnydd cynnar neu hwyr o'r traeth ar gyfer pobl a allai fod eisiau cerdded eu cŵn cyn/ar ôl gwaith.

Cytunodd yr Aelodau eu bod wedi cael adborth tebyg gan breswylwyr a cherddwyr cŵn am yr amseru a bod y GDMAC ambell waith yn atal perchnogion cŵn cyfrifol sy'n ystyriol ac yn codi baw cŵn i gerdded eu cŵn yn gynharach neu'n hwyrach.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai wedi hoffi gweld hyn yn cael sylw fel cwestiwn penodol yn yr ymgynghoriad ond ei fod wedi derbyn bod adran ynddo lle gellid cynnwys adborth ar unrhyw fater.
Dywedodd Swyddogion eu bod wedi gwneud ymchwil gydag awdurdodau arfordirol eraill, ac mae'r awdurdodau hynny wedi nodi eu bod wedi ei chael hi'n anodd rheoli mewn perthynas â gorfodi.
Dywedodd Swyddogion fod dau fater, cŵn oddi ar dennyn a baw cŵn.
Mae Swyddogion yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o berchnogion cŵn yn ystyriol ac yn casglu baw cŵn ar eu hôl ond mae'r rheini nad ydynt yn gwneud yn achosi risg i iechyd. Nododd Swyddogion fod yr adroddiad heddiw ond yn gofyn am ganiatâd ar gyfer ymgynghori.

Yn dilyn craffu, roedd yr Aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) - Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (CC)</u>

Cyflwynodd Ceri Morris yr adroddiad gan egluro, er ei bod yn siomedig gorfod cyflwyno'r adroddiad, dyma'r ymagwedd gywir o ailosod y cloc ar amserlen y CDLlN. Dywedodd Swyddogion eu bod wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru (LlC) a'u bod yn deall yr heriau ac yn cefnogi'r ymagwedd. Felly, nid yw Swyddogion yn credu y bydd problemau gyda Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo hyn.

Gofynnodd yr Aelodau beth fydd yn cael ei wneud yn wahanol y tro hwn fel y gellir cael canlyniad gwell? Nodwyd ar dudalen 70 na fydd sawl cyfyngiad fel halogiad, perygl llifogydd, isadeiledd etc. yn newid. Roedd yr Aelodau eisiau gwybod pa ddatrysiadau y mae Swyddogion yn eu hystyried. Roedd yr Aelodau hefyd eisiau gwybod beth sy'n cael ei wneud yn wahanol i gael mwy o gyflwyniadau neu gyflwyniadau gwahanol ar gyfer safleoedd ymgeisiol.

Dywedodd Swyddogion y byddai'r amserlen ddiwygiedig yn darparu blwyddyn ychwanegol ar gyfer paratoi cynlluniau. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma yn parhau'n berthnasol sy'n golygu y gall Swyddogion ganolbwyntio ar edrych ar y datrysiadau.

Mae'r awdurdod wedi tangyflawni wrth adeiladu tai, gan adeiladu 100 o unedau yn unig yn 2021-22 a 100 o unedau yn 2022-23, ac o ystyried y lefelau twf, roeddent yn bwriadu adeiladu 277 o unedau,

felly bydd yr amserlen ddiwygiedig yn galluogi i'r tangyflawniad ym mlynyddoedd cynnar y cynllun newydd, i gael ei ddatrys.

Esboniodd Swyddogion y byddant yn gwneud galwad arall am safleoedd ymgeisiol ac yn croesawu awgrymiadau ar gyfer safleoedd ymgeisiol gan Aelodau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod astudiaeth gallu trefol y mae Swyddogion yn edrych arni, ym mhob cymuned ar gyfer ceisiadau cynllunio yn y gorffennol nad ydynt wedi'u rhoi ar waith eto.

Mae Swyddogion wedi cynnal dadansoddiad is-ranbarthol gydag Abertawe a byddant yn siarad â nhw a Phowys i weld a yw'r twf a'r tir sydd ei angen yn cyd-fynd â'i gilydd. Bydd Swyddogion hefyd yn edrych ar yr hyn y bydd goblygiadau'r Porthladd Rhydd yn ei olygu i'r fwrdeistref sirol.

Bydd angen i Swyddogion edrych ar batrymau cymudwyr a gweithio gartref a gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru ynghylch materion isadeiledd. Bydd yr Asesiad Effaith Strategol a data ffôn yn helpu Swyddogion i ddadansoddi hyn. Dywedodd Swyddogion hefyd am yr angen i ystyried effaith y Metro ac maent yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru yn hynny o beth.

Mae'r amser ychwanegol yn caniatáu i Swyddogion archwilio safleoedd mawr fel Coed Darcy i drafod gyda thirfeddianwyr a datblygwyr ar sut i symud y safleoedd strategol hyn ymlaen.

Roedd yr Aelodau yn falch o glywed yr ymagwedd hon ond yn teimlo bod rhywfaint ohoni'n swnio fel newid diffiniad y rhifau yn hytrach na'r tir sydd ar gael. Mae siarad â'r safleoedd mawr lle mae problemau yn bwysig ac mae cael trafodaethau am isadeiledd â Thrafnidiaeth Cymru yn dda er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud ag isadeiledd ac mae'r drafnidiaeth i'r cymoedd yn hanfodol fel dewis arall i bobl ddefnyddio eu ceir.

Dywedodd Swyddogion eu bod, o ran proses y safle ymgeisiol, wedi trafod gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gallant adolygu'r trothwy o dystiolaeth sydd ei hangen ar y rheini sy'n cyflwyno safleoedd. Mae hyn wedi atal pobl rhag cyflwyno safleoedd, felly maen nhw'n edrych ar geisio lleihau'r baich ar y cam cynnar hwn i geisio cael mwy o gyflwyniadau i'w hadolygu.

Eglurodd Nicola Pearce, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, fod llawer o gyfleoedd datblygu economaidd cyffrous yn dod i mewn i CNPT, felly

bydd hyn yn helpu i roi tawelwch meddwl i ddatblygwyr wrth gael marchnad ar gyfer eu cynnyrch fel cyfle'r Porthladd Rhydd ac roedd safleoedd a phrosiectau cymunedol y cymoedd yn anhysbys pan gawsant eu cyflwyno diwethaf ar gyfer safleoedd ymgeisiol. Gofynnodd yr Aelodau pa effaith y byddai'r oedi CDLlN yn ei gael ar is-bwyllgor cynllunio'r cyd-bwyllgor corfforedig.

Esboniodd Swyddogion eu bod yn brosesau ar wahân o ystyried eu bod yn ddwy haen wahanol o gynllun datblygu. Er bod oedi hefyd o ran cyflwyno'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS), oherwydd y sefyllfa sy'n ymwneud ag adnoddau, mae gan Lywodraeth Cymru safbwynt na ddylai awdurdodau cynllunio lleol roi'r gorau i baratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Er bod angen i CDLlau a CDSau fod yn unol â'i gilydd, maent yn brosesau ar wahân.

Mae llawer o'r gwaith ar y cyd sydd wedi'i wneud ar draws y rhanbarth, y materion ehangach a lleol yn cael eu hystyried ar y cyd. Mae'r gwaith yn cefnogi'r CDLlau unigol ond bydd hefyd yn darparu'r blociau adeiladu ar gyfer y CDS. Gyda chyfanswm o dair haen o gynllun datblygu yng Nghymru, bydd heriau bob amser wrth eu cydlynu, yn enwedig yr amserlenni ar gyfer paratoi.

Yn dilyn craffu, roedd yr Aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adolygiad Parcio 2023

Dywedodd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi cynnal cryn dipyn o graffu ar y cynigion hyn yn y grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r argymhellion hynny wedi'u cynhyrchu ac yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Craffu. Mynegodd yr Aelodau bryderon sylweddol am effaith y cynigion ar fusnesau, preswylwyr, a phobl anabl a maint yr ymgynghoriad. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod Aelodau'r Cabinet wedi gohirio'r penderfyniad yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud gan Aelodau'r Cabinet ac nid y Pwyllgor Craffu. Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad, i raddau helaeth, yr un peth â'r un ym mis Gorffennaf ond roedd yn cydnabod rhai o bryderon y pwyllgor ar anabledd. Croesawodd y Cadeirydd yr Asesiad Effaith diweddaredig ond nododd nad oedd yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r cynigion.

Mynegodd yr Aelodau bryderon nad oedd llawer o bwyntiau a godwyd y tro diwethaf wedi cael sylw. Roedd yr Aelodau'n poeni am y

ffïoedd parcio a'r cais i'r pwyllgor geisio codi arian drwy'r ffïoedd. Dywedodd yr Aelodau fod VIVA Port Talbot wedi bod yn gweithio'n galed ar adfywio canol y dref. Teimlai'r Aelodau nad oedd isafswm cyfreithiol cyfnod ymgynghori yn briodol ar gyfer y lefel hon o newid i fusnesau yn yr ardal ac roedd yr Aelodau'n siomedig nad oedd unrhyw newid wedi ei wneud mewn perthynas â hynny. Mynegodd yr Aelodau eu syndod hefyd nad yw'r adroddiad yn dangos yr effaith ar bobl anabl.

Dywedodd Swyddogion y bydd 2 ymgynghoriad statudol, un ar gyfer y tariffau ar gyfer meysydd parcio oddi ar y stryd a'r llall ar gyfer ymgynghoriad strategaeth ar unrhyw ddiwygiadau i orchmynion rheoleiddio traffig ar y stryd. Dywedodd Swyddogion y byddai ymgyngoreion yn cael cyfle i ymateb iddynt. Bydd angen adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu a Bwrdd y Cabinet am unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd i'w hystyried.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod diwrnodau parcio am ddim adeg y Nadolig yng nghanol y dref, yn opsiwn dewisol a gynigiwyd gan y cyngor. Bydd rheolwyr canol y dref yn cynnal ymgynghoriad uniongyrchol â masnachwyr ar ba ddiwrnodau yr hoffent ddewis ar gyfer y cynnig parcio 5 niwrnod am ddim a sut yr hoffent gydlynu'r dyddiadau hynny ag unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir ganddynt dros y flwyddyn.

Esboniodd Swyddogion eu bod wedi gwneud diwygiad i'r AEI. Dywedodd Swyddogion nad ydynt yn dweud nad yw'n effeithio ar ymwelwyr anabl, ond y gallai effeithio arnyn nhw, ac ar ôl cael cyngor gan y swyddog cydraddoldebau, roedden nhw'n fodlon ei fod yn adlewyrchu sefyllfa'r Swyddogion yn yr AEI.

Dywedodd yr Aelodau Lleol eu bod yn siomedig gyda'r adolygiad parcio a'i argymhellion. Teimlai'r Aelodau fod y cyngor a VIVA Port Talbot wedi gweithio'n galed i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac roeddent yn teimlo y bydd yr adroddiad hwn yn cael effaith negyddol ar nifer yr ymwelwyr. Derbyniodd yr Aelodau fod pwysau cyllidebol ond roeddent yn pryderu nad oedd y cynnig yn cyfiawnhau'r effaith ehangach ar Bort Talbot ac yn erbyn cynnydd mewn ffïoedd. Mynegodd yr Aelodau'r farn bod angen rhoi'r un gefnogaeth i fasnachwyr ardal y traeth a chanol y dref â datblygwyr sy'n bwriadu adeiladu yn yr ardal.

Teimlai'r Aelodau y bydd y newidiadau'n creu cynnydd mewn ceisiadau am fathodynnau glas.

Darllenodd yr Aelodau ddatganiad gan Gadeirydd bwrdd VIVA Port Talbot.

Siaradodd yr Aelodau ar ran masnachwyr Castell-nedd ac roeddent yn annog Swyddogion i fod yn ofalus o achosi problem i bobl a fyddai'n dymuno galw heibio yn gyflym am rywbeth o'r dref ond a allai gael eu digalonni, byddai'r tariff isel am yr awr gyntaf yn helpu hyn.

Esboniodd yr Aelodau nad yw'r masnachwyr yn teimlo yr ymgynghorwyd â nhw'n briodol gan y bydd hyn yn effeithio'n fawr arnynt. Mae refeniw a wneir adeg y Nadolig yn para tan fis Ionawr i fasnachwyr yng Nghastell-nedd, ac nid ydynt yn siŵr y bydd y parcio am ddim ym mis Ionawr yn gwrthbwyso hynny. Apeliodd yr Aelodau i'r Cabinet ar ran masnachwyr Castell-nedd i ailfeddwl am hyn ac annog ymwelwyr i'r trefi.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dwf Economaidd ei fod wedi cysylltu â VIVA Port Talbot i gael eu barn oherwydd sylwadau o'r cyfarfod diwethaf ond ni chafodd ymateb o'r cyfarfod hwnnw, fodd bynnag, roedd wedi gwrando ar y datganiad a ddarllenwyd. Hoffai ddod yn agos at gymunedau ym mhob un o ganol trefi'r awdurdod fel y gallai gael adborth cyn cyflwyno newidiadau.

Cododd yr Aelodau’r mater o'r effaith ar bobl anabl a phwysleisiodd mewn cyfarfodydd craffu blaenorol, oherwydd eu hanabledd y gallent fod yn cael eu cyfyngu i adegau penodol o ran cael mynediad at wasanaethau, ac mae cael gwared ar y man 1 awr am ddim yn mynd i effeithio'n ddifrifol ac yn anghyfartal arnynt gan fod y rhan fwyaf o bobl anabl ar fudd-daliadau neu incwm sefydlog.

Anogodd yr Aelodau Swyddogion i ailfeddwl am gael gwared ar yr awr am ddim oherwydd yr effaith ar bobl anabl a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Dywedodd yr Aelodau fod busnesau ar lan y môr wedi cyflwyno sylwadau am unrhyw newidiadau sy'n atal cwsmeriaid rhag stopio i godi rhywbeth ganddynt yn gyflym. Dywedodd yr Aelodau hefyd fod rhai o'r taliadau yn uwch na'r ffïoedd o 5-10% a'r codiadau mewn ffïoedd a bennwyd gan y weinyddiaeth bresennol a awgrymwyd yn flaenorol.

Gwnaeth Swyddogion ymateb cyffredinol i'r materion a godwyd. Roeddent yn deall ei bod yn gyfnod anodd i bobl o ran fforddio cynnydd mewn ffïoedd, ond oherwydd y broblem sylweddol yn y gyllideb mae swyddogion yn gorfod cynyddu ffïoedd gan nad oes

ganddynt ddewis arall. Dywedodd Swyddogion eu bod yn edrych ar ffyrdd o gynyddu incwm a lleihau costau fel y gallant barhau i ddarparu'r lefel o wasanaeth y mae'r awdurdod yn ei ddarparu ar hyn o bryd os nad gwell lefel o wasanaeth.

Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod cefnogaeth i'r mwyafrif helaeth o'r cynigion yn yr adroddiad a bod cyfnod hir wedi bod lle nad oedd y cyngor wedi codi tâl am barcio ceir a gwnaed y penderfyniad anodd i godi tâl yn ystod adeg o gyni, i alluogi'r awdurdod i gynnal meysydd parcio.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith cynnal a chadw sylweddol yn cronni oherwydd y diffyg arian sydd ar gael ond bydd pobl yn talu am wasanaethau os ydynt o ansawdd da. Eglurodd Swyddogion nad yw rhai o'r meysydd parcio yn cael eu cynnal i'r safon yr hoffai Swyddogion ac mae adroddiad yn cael ei baratoi ar ddarpariaeth parcio ar draws y fwrdeistref sirol. Mae hwn yn edrych ar ddefnydd a galw ac os oes unrhyw botensial i israddio nifer y meysydd parcio yn CNPT a defnyddio rhai o'r rhain at ddibenion amgen.

Hysbyswyd yr Aelodau fod llawer o ddarnau o waith a fydd yn llywio cyfleoedd creu incwm a sut y gellir cefnogi canol trefi a chyrchfannau eraill yn y dyfodol i gynyddu nifer yr ymwelwyr a'u gwneud yn fwy deniadol iddynt. Tynnodd Swyddogion sylw at Gynlluniau Bro sy'n cael eu datblygu ar gyfer canol y trefi a rhai o ganolfannau ardal i nodi pa gyfleoedd adfywio y gellid edrych arnynt ymhellach a sicrhau cyllid i'w gwneud yn fwy deniadol a dod â mwy o bobl i ganol trefi.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwaith ar hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi yn cael ei wneud mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae Swyddogion yn ymwybodol bod rhai o ganol trefi yn sylweddol o ran maint ac mae sawl eiddo gwag ac eiddo preswyl yn ymddangos yng nghanol trefi. Roedd Swyddogion yn edrych ar faint a lleoliad canol trefi i ganolbwyntio gweithgareddau o fewn ardal lai i gynyddu bywiogrwydd fel rhan o'r CDLl.

Eglurodd Swyddogion fod tîm canol tref bach yn cael ei ailstrwythuro ac roedd ei gylch gorchwyl a'i flaenoriaethau hefyd yn cael eu hystyried. Mae'r tîm yn gweithio gyda'r masnachwyr a'r AGB ym Mhort Talbot i geisio nodi pa ddigwyddiadau neu weithgareddau sy'n dod â phobl i ganol trefi a'r hyn sydd wedi bod yn effeithiol o'r blaen drwy ddadansoddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyllid wedi'i sicrhau i ymgymryd â strategaeth glan y môr i weld beth fyddai angen ei wneud i'w gwneud yn fwy deniadol i ymwelwyr ac i bobl aros yn hwy a gwario arian yn y busnesau a'r cyfleusterau yn yr ardal.

Esboniwyd i'r Aelodau bod llawer yn cael ei wneud i wella dengarwch ond ni allant fforddio rheoli'r meysydd parcio ar yr incwm sy'n cael ei greu ar hyn o bryd ac mae angen iddynt gynyddu'r incwm er mwyn buddsoddi yn y cyfleusterau hynny y maent am eu cynnal yn y tymor hir.

Nododd Swyddogion y gallai rhai cynghorau weithredu parcio am ddim, ond canol tref Llanelli yn unig sy'n gweithredu cynnig amgen i Gastell-nedd Port Talbot ac mae'r taliadau wedi'u meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr awdurdod hefyd yn talu tuag at yr AGB ac nid yw pob talwr AGB yn erbyn codi tâl. Tynnodd Swyddogion sylw'r Aelodau at y ffaith mai'r AGB a awgrymodd y syniad o gynnal diwrnodau parcio am ddim ar draws y flwyddyn ac roedd AGB eisiau mwy o ryddid mewn perthynas â phryd fyddai'r diwrnodau parcio am ddim yn cael eu cynnal.

Dywedodd Swyddogion eu bod yn edrych ar yr argymhellion ar y lleoedd parcio esielon ar lan y môr, wrth eu bod â chyfyngiad amser. Byddai deiliaid Bathodyn Glas yn cael ei heithrio o'r cyfyngiad amser a'r tâl a godir. Os yw Aelodau'r cyhoedd yn gymwys i gael Bathodyn Glas, dylid eu hannog i wneud cais am un.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y penderfyniad i godi incwm eisoes wedi'i wneud a bod y grŵp gorchwyl a gorffen yn gweithio o fewn hynny pan wnaethant eu hargymhellion er mwyn ceisio gwneud yn fawr o'r sefyllfa. Nid yw Aelodau'r pwyllgor o reidrwydd yn cefnogi nac yn hapus gydag egwyddor y ffïoedd parcio ond roeddent yn derbyn ei bod yn anochel o ran y gyllideb.

Dywedodd Swyddogion eu bod yn derbyn hynny ac fel Swyddogion nad oeddent ychwaith am fod mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid iddynt gynyddu'r ffïoedd chwaith, ond mae'r amgylchiadau'n golygu ei bod yn ofyniad angenrheidiol i gynnal y cyfleusterau hyn ac fel Swyddogion maent hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn ac y byddent yn effeithio arnynt hefyd.

Diolchodd Swyddogion i'r pwyllgor craffu wrth i lawer o adborth cadarnhaol ddod allan o'r broses honno ac am y ffrydiau gwaith a fydd yn parhau i gael eu datblygu o ganlyniad. Er bod y gyllideb wedi'i gosod, hyd yn oed gyda'r cynigion hyn, byddant yn brin o £25,000 a chafwyd pwysau ariannol eraill hefyd. Bydd y sefyllfa ariannol ar gyfer y cyngor yn heriol, nawr ac yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd y defnydd o feysydd parcio lle y dylai fod, ac mae cynnal a datblygu'r meysydd parcio i safon uwch yn costio arian ac roeddent yn cwestiynu ai dyma'r camau gweithredu cywir? Amlygodd yr Aelodau hefyd fod trefi eraill yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) sydd â pharcio am ddim yn y rhan fwyaf o drefi.

Roedd yr Aelodau yn deall y pwysau ac mae angen cynyddu refeniw ond roeddent yn teimlo nad dyma'r ffordd orau. Dywedodd yr Aelodau hefyd na ymgynghorwyd â VIVA Port Talbot o gwbl cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau. Dywedodd yr Aelodau fod masnachwyr, ar ôl y Nadolig diwethaf, eisiau parcio am ddim yn gynt na'r Nadolig ac os yw Swyddogion yn ystyried rhagor o ddiwrnodau parcio am ddim, efallai y gallai hynny fod o gymorth. Mynegwyd y farn na fyddai 5 niwrnod yn ddigonol.

Teimlai'r Aelodau fod gan Gastell-nedd un o'r meysydd parcio aml-lawr gorau yng Nghymru ac os ydynt fel awdurdod am weld meysydd parcio o'r safon honno ac am gynnal eraill a'u codi i'r safon honno hefyd, yna byddai angen cynyddu ffïoedd gan ei fod yn costio llawer iawn o ran cynnal a chadw a glanhau.

Roedd Aelodau'n teimlo bod awdurdodau eraill yn codi llawer mwy na Chastell-nedd Port Talbot.
Eglurodd Aelod y Cabinet mai'r cynnydd mwyaf mewn nifer yr ymwelwyr oedd wrth adfywio yng Nghastell-nedd. Cofnododd Boots y ffigurau uchaf erioed pan wnaethon nhw agor. Mae'r ymrwymiad yn cael ei ddangos gan y tîm adfywio gyda chynlluniau bro a rheolwyr canol y dref. Mae cynyddu nifer yr ymwelwyr yn gwella canol trefi ac mae'n siarad â pherchnogion eiddo yn Stryd y Frenhines i symud pethau ymlaen ac fel ymrwymiad i geisio gwella a chynyddu nifer yr ymwelwyr.

Amlygodd Swyddogion fod meysydd parcio am ddim yn dal i fod yn CNPT, yn union fel RhCT a bod Abertawe, o'i gymharu, wedi dileu pob maes parcio am ddim fel rhan o gyflawni cyllideb gytbwys. Dywedodd Swyddogion nad ydynt wedi mynd mor bell â hynny mewn cynigion ond bod yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd o

6. gynyddu ffïoedd a gosod ffïoedd mewn ardaloedd eraill lle nad ydynt ar waith ar hyn o bryd. Bydd effeithiolrwydd ac effaith y penderfyniadau hyn yn cael eu hadolygu o fewn 6 mis ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith i gael y cyfle i ddiwygio unrhyw beth nad yw'n gweithio.

Mewn perthynas â pharcio'r Nadolig, gwnaethant ystyried sylwadau VIVA Port Talbot ynglŷn â rhagor o hyblygrwydd ar ddiwrnodau parcio ac i beidio â'u cynnal i gyd yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig ac ar ôl hynny. Bydd Swyddogion yn ymgynghori â VIVA, cynghorau tref Castell-nedd a Phontardawe a'r masnachwyr drwy reolwyr canol y dref. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n cael ei gynnal fel rhan o'r broses hon.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn deall yr hyn roedd VIVA Port Talbot yn ei ddweud o ran hyblygrwydd, ond roedd yr adroddiad yn gostwng 17 diwrnod i 5 niwrnod ac mae'n debyg nad oedd VIVA yn bwriadu gweld y gostyngiad hwnnw mewn diwrnodau parcio am ddim pan ofynnon nhw am hyblygrwydd.

Yn dilyn craffu, cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd ar bleidlais gofnodedig.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad a amlinellwyd ar dudalen 206 - 209 o adroddiad y Cabinet.

O blaid: Y Cynghorydd T Bowen, W Carpenter, R Davies, N Goldup-John.
Yn erbyn: Y Cynghorydd S Pursey, S Freeguard, S Penry, C James, S Grimshaw, L Williams.

Nid oedd yr Aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

4. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

5. **<u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>**

Penderfynodd yr Aelodau beidio â chraffu ar unrhyw eitemau preifat.

6. **<u>CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU</u>**

Penderfynodd yr Aelodau beidio â chraffu ar unrhyw eitemau preifat.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH**

**CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 6 Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, C.James, K.Morris, R.W.Wood a/ac L.Williams |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Morris, M.Roberts, T.Rees, S.Brennan a/ac N.Jones |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hurley a/ac S.Jones |
| **Arsylwyr:** | Cynghorydd Mrs Suzanne Paddison |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar Eitem 3 ar yr agenda Craffu a'r eitemau canlynol o agenda Bwrdd y Cabinet:

• Eitem 9 - Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2024 - Chwarter 1 (1 Ebrill 2023 - 30 Mehefin 2023)

• Eitem 10b Cynnig i brydlesu hen safle Wilko Retail Limited sy'n cynnwys rhan o'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf o fewn y maes parcio aml-lawr yng nghanol tref Castell-nedd i CDS (Superstores Internationaol) Limited, sy'n masnachu fel The Range

• Eitem 11 Ildio prydles bresennol a chaniatáu cytundeb newydd am brydles, a phrydlesu ciosg arlwyo a thir cyfagos ar ben gorllewinol glan môr Aberafan, Port Talbot.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

3. **ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd. Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar ba mor galed yr oedd y pwyllgor wedi gweithio a chyflawniadau'r pwyllgor megis cwblhau dau grŵp gorchwyl a gorffen a sesiynau craffu dwys. Gwnaeth y cadeirydd sylw hefyd ar y diwygiadau llwyddiannus i bolisi a dogfennau yr oedd y pwyllgor wedi'u sicrhau. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled a chefnogaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar ba mor dda yw'r adroddiad a'i fod yn rhoi amlinelliad ardderchog o'r gwaith a wnaed drwy gydol y flwyddyn.

Nododd Pwyllgor Craffu Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a'r Strydlun Adroddiad Blynyddol 2022/2023 a atodwyd yn Atodiad A a'i gymeradwyo i'r cyngor.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2023/2024 - Chwarter 1 (1 Ebrill 2023 - 30 Mehefin 2023)

Cyflwynodd swyddogion yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd i'r Aelodau ac amlygodd ei fod mewn fformat cyflwyno newydd fel ymateb i adborth gan Aelodau. Dywedodd swyddogion y byddent yn cofnodi unrhyw adborth ac yn trosglwyddo hynny i'r tîm perfformiad corfforaethol a gynigiodd y fformat cyflwyno newydd.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r sesiwn hyfforddi sydd ar ddod ar y fformat DPAau newydd a'u hannog i fynd iddi gan y bydd yn helpu aelodau i ddehongli Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn well.

Dywedodd yr Aelodau eu bod yn credu bod y fformat newydd yn gliriach ac yn well ac yn dangos tueddiadau tymor hwy a'r cyfeiriad teithio. Teimlai'r Aelodau hefyd y byddai'n ddefnyddiol cael llinell ar graffiau sy'n dangos beth yw'r targed fel cymhorthyn gweledol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 64 o'r adroddiad yn ymwneud â'r casgliadau gwastraff a gollwyd a gofnodwyd. Roedd yr Aelodau eisiau gwybod a yw hyn hefyd yn cynnwys adroddiadau ar-lein ac adroddiadau gan Aelodau am gasgliadau nad oedd y gwasanaethau gwastraff wedi'u casglu.

Esboniodd swyddogion fod adroddiadau ar-lein wedi'u cofnodi ac anogwyd yr Aelodau i adrodd am faterion drwy'r ganolfan alwadau fel y byddent yn sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir. Nid yw swyddogion unigol yn defnyddio'r system y mae'r ganolfan gyswllt yn ei defnyddio, ac mae'n llai tebygol o gael ei gofnodi'n gywir.

Dywedodd yr Aelodau fod perygl na fydd y casgliadau a gollwyd yn cael eu casglu'r diwrnod hwnnw oherwydd erbyn i'r wybodaeth gael ei chofnodi, mae'n bosib y byddai'r criw casglu wedi gadael yr ardal yn barod.

Dywedodd swyddogion fod y cynllun gweithredu gwastraff wedi'i gymeradwyo ar gyfer y system ddata 'In-cab' felly bydd y criwiau'n cael gwybod am y casgliadau a gollwyd. Bydd y system olrhain yn golygu y bydd swyddogion yn gwybod ble mae'r criwiau, a bydd system ddata 'In-cab' yn rhoi gwybod i'r criw agosaf am y casgliad a gollwyd.

Gofynnodd yr Aelodau a yw adroddiadau o dipio anghyfreithlon a wnaed gan Aelodau wedi'u cynnwys yn DPA 17 yn ogystal ag a yw adroddiadau'n cael eu categoreiddio'n wahanol nawr gan fod nifer is yn y chwarter hwn.
Esboniodd swyddogion fod System FLARE yn cael ei defnyddio i ddogfennu popeth am dipio anghyfreithlon gan ei fod yn broses gyfreithiol. Dywedodd swyddogion hefyd fod problemau cyflwyno weithiau gyda phreswylwyr yn rhoi'r gwastraff allan ar yr wythnos anghywir.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod tipio anghyfreithlon, yn hanesyddol, wedi amrywio, ac yn ystod y cyfyngiadau symud cynyddodd tipio anghyfreithlon. Cafodd y broses gyfreithiol ar gyfer tipio anghyfreithlon ei hatal am gyfnod gan atal cyfweliadau fel rhan o'r broses orfodi. Gyda gorfodaeth bellach wedi dychwelyd, mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon wedi gostwng.

Gofynnodd yr Aelodau a yw cwynion am lanast sy'n cael ei adael ar ôl pan gesglir gwastraff yn cael eu cofnodi. Dywedodd swyddogion fod y system gwasanaethau cwsmeriaid yn nodi popeth.

Roedd yr Aelodau'n pryderu bod codi'r materion drwy'r ganolfan alwadau neu ar-lein yn achosi oedi cyn i faterion gael eu datrys ac roeddent am wirio a fydd y system 'In-cab' yn cael y diweddariadau o hysbysu trwy'r gwasanaethau cwsmeriaid.

Cadarnhaodd swyddogion y bydd, unwaith y bydd y system fewnol yn ei lle. Mae'r system 'gwasanaeth yn gyntaf' hefyd yn cael ei hadolygu er mwyn cyflwyno gwelliannau, yn ogystal ag edrych ar yr hyn y mae'n ei gasglu fel ei bod yn dal popeth.

Dywedodd yr Aelodau eu bod yn tueddu i siarad â swyddogion yn uniongyrchol gan fod hyn yn tueddu i olygu bod camau'n cael eu cymryd yn gyflymach. Roedd yr Aelodau am wirio y byddai'r system In-cab newydd yn sicrhau y byddai hyn yn golygu ymatebion cyflym i ddigwyddiadau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod data o'r holl rowndiau wedi'u lanlwytho i i'r System 'Gwasanaeth yn Gyntaf' a bydd Swyddogion yn gallu dadansoddi cwynion yn erbyn rowndiau unigol yn y dyfodol, er na fydd hyn ar gael am ychydig fisoedd.

Nodwyd yr adroddiad.

## 5. COFNOD CAMAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR

Nododd Aelodau'r Pwyllgor y Cofnod Gweithredu.

## 6. BLAENRAGLEN WAITH

Nododd aelodau'r pwyllgor y Flaenraglen Waith.

## 7. EITEMAU BRYS

Roedd tair eitem frys, a phenderfynodd yr Aelodau graffu ar ddwy ohonynt.

**Penderfynwyd:**

Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

Eitem 10b Cynnig i brydlesu hen safle Wilko Retail Limited sy'n cynnwys rhan o'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf o fewn y maes parcio aml-lawr yng nghanol tref Castell-nedd i CDS (Superstores Internationaol) Limited, sy'n masnachu fel The Range

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Eitem 11 Ildio prydles bresennol a chaniatáu cytundeb newydd am brydles, a phrydlesu ciosg arlwyo a thir cyfagos ar ben gorllewinol glan môr Aberafan, Port Talbot.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# ERSS Committee - Actions and Referrals Update – 2023-24

## No outstanding actions currently

| Meeting Date | Agenda Item | Minuted Action / Referral / Request | Progress Update | Officer | Target / Completion Date | Completed / On-going |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

Date last updated

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# Environment, Regeneration & Neighbourhood Services Scrutiny Committee

## (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| June 2nd | Burrows Yard – Update Report | Simon Brennan |
| | | |
| | | |
| July 14th | Active Travel - Update | Dave Griffiths |
| | Report on the Neath Integrated Transport Hub (NITH), progress to-date, background to proposal, and the subsequent documents:<br>• WelTAG 1<br>• WelTAG 2<br>• Canopy RIBA 2 Report<br>• Other background documents<br>This should be issued no later than 14 days prior to the next meeting. | Dave Griffiths |
| 28th July (Special) | | |
| September 14th (Special) | | |
| October 6th | | |
| Nov 17th | | |

| **2024** | | |
|---|---|---|
| Jan 12th | | |
| Feb 9th | | |
| March 22nd | | |
| May 3rd | Ongoing Monitoring of Waste Collection and update on all actions | Mike Robers |
| | | |
| | | |
| | | |

**Report to be included in future cycle:**

- **BES update (Deferred from October 6th) – Jan 2023.**